# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU TROSEDD AC ANRHEFN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 19EG MAWRTH, 2026**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**Noder: Cynhelir Sesiwn Briffio i'r Aelodau am 10:00yb**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

**Ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

### Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths | Annwen Hughes |
| Linda Morgan | Edgar Wyn Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Beca Roberts | Jina Gwyrfai | Beca Brown |
| Berwyn Parry Jones | Elfed Williams | Dafydd Davies |

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Elfed Powell Roberts |
| Peter Thomas | Gruffydd Williams |
| Wendy Cleaver | |

### Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD A MÔN** 14 - 42

I roi trosolwg i Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn.

**6. GWASANAETHAU CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU** 43 - 60

I graffu materion sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu, sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Werdd.

**7. LLWYBRAU** 61 - 77

I graffu materion sy'n gysylltiedig â llwybrau er mwyn darparu sicrwydd o ran gweithrediad.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 22 IONAWR 2026**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd) a Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd)

Beca Brown, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Elwyn Edwards, Jina Gwyrfai, Berwyn Parry Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed Powell Roberts, Peter Thomas, Elfed Williams, Robert Glyn Daniels a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitemau 5 a 6:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd, Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol)

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd, Trafnidiaeth) ac Iwan ap Trefor (Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 8:**
Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor), Sandra Lynne Thomas (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dafydd Owen Davies.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 06 Tachwedd 2025, fel rhai cywir.

**5. CAIS I GRAFFU GAN AELOD O'R CYHOEDD – MATERION ARIANNU'R CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR**

Cadarnhawyd nad oedd modd i'r aelod o'r cyhoedd fod yn bresennol oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Yn ei absenoldeb, darllenodd yr Ymgynghorydd Craffu

ddatganiad ysgrifenedig a ddarparwyd ganddo, a oedd yn ymhelaethu ar ei gais drwy nodi'r pwyntiau canlynol:

- Dylai'r arian sydd yn cael ei wario fel rhan o Gynllun Ymateb Argyfwng Hinsawdd a Natur gyfarch gofyniad budd cyhoeddus Deddf Elusennau 2011, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth, yn dryloyw a bod modd eu craffu'n effeithiol.
- Ei fod yn anoddach i dystiolaethu sut mae prosiectau yn cael eu blaenoriaethu ac os ydynt yn cyfarch y gofyniad budd cyhoeddus, os oes unrhyw brosiectau eraill wedi eu hystyried a pha dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddod i benderfyniad os nad oes ymgynghoriadau cyhoeddus a goruchwyliaeth y Cabinet yn rhan o lywodraethiant y Cynllun.
- Pwysigrwydd trefniadau llywodraethu da.
- Dylid sicrhau bod cynlluniau arbrofol yn addas ar gyfer y dyfodol. Os yw'r Cyngor yn cynnal cynllun peilot cerbydau fflyd trydan, ni fyddai canlyniadau'r peilot yn adlewyrchu gwir gost y fflyd drydan i'r dyfodol.
- Dylai prosiectau'r Cynllun nodi budd cyhoeddus dros amser i'r dyfodol. Gall budd cyhoeddus o unrhyw brosiect leihau os yw costau yn parhau i gynyddu. Rhaid i'r Cyngor ddangos y rhoddir ystyriaeth i hyn.
- Bod hawliau dirprwyedig yn cynyddu'r risg o dybiaethau heb eu profi. Pryder y gall prosiectau gael eu cymeradwyo ar sail gwybodaeth sydd wedi dyddio neu ar sail optimistaidd heb gael ei graffu.

Mewn ymateb i'r cais i graffu ac i'r datganiad ysgrifenedig a oedd yn ymhelaethu ar gais yr unigolyn, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan swyddogion:-

Croesawyd y cais hwn i graffu'r materion gan aelod o'r cyhoedd, gan ymfalchïo bod y cyhoedd yn ymddiddori yng ngwaith y Cynllun.

Sicrhawyd bod llywodraethiant y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur yn cael ei ystyried yn gyson, gan rhoi ystyriaeth fanwl i'w weithrediadau a phenderfyniadau cyllidol, gan nodi bod ymateb ysgrifenedig wedi cael ei gyflwyno i'r cais i graffu yn rhan o ddogfennaeth y cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad yw Deddf Elusennau 2011 yn berthnasol i weithrediad y Bwrdd na'r Cyngor yn gyffredinol, gan egluro mai Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a gweithdrefnau democrataidd yw'r ystyriaethau perthnasol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Mewn ymateb i'r cais i graffu ac i'r datganiad ysgrifenedig yn ymhelaethu ar y cais, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Diolchwyd i'r unigolyn am gyflwyno'r cais hwn i graffu, gan ymfalchïo bod y cyhoedd yn cymryd diddordeb yn y maes.

Anghytunwyd gyda'r cysyniad nad oedd materion y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur yn cael ei graffu gan fod y pwyllgor hwn yn ei graffu'n rheolaidd. Ychwanegwyd bod aelod o'r cabinet yn bresennol ar gyfer y broses craffu hynny a bod sylwadau'r pwyllgor hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y Bwrdd.

Cadarnhawyd bod ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn gyson ar faterion argyfwng hinsawdd a natur er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn cael cyfle i leisio barn wrth lunio prosiectau'r Bwrdd. Fodd bynnag, ystyriwyd bod lle i wella er mwyn sicrhau bod cymunedau penodol yn ymateb i'r ymgynghoriadau hyn. Mewn ymateb i'r

sylwadau, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd bod yr ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu cynnwys ar dudalen ‘Dweud eich Dweud’ ar wefan y Cyngor gan gydnabod bod gwaith ar y gweill er mwyn sicrhau bod ymgynghoriadau yn cyrraedd cynghorau Tref a Chymuned ac bod ymatebion helaeth yn cael eu derbyn.

Nodwyd hefyd bod arbenigwyr maes yn casglu gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd gan sicrhau bod y wybodaeth gywir a diweddaraf yn cael ei gyflwyno i’r Aelodau. Cydnabuwyd bod y mater hwn yn faes cymhleth iawn a bod angen gwybodaeth wyddonol benodol i allu casglu data yn effeithiol.

Mewn ymateb i sylwadau penodol ar sut mae’r Bwrdd yn cyllidebu’r prosiectau y gymeradwyir, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod trafodaethau am gyllidebau yn cymryd lle yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Ymhelaethwyd bod y Cynllun yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ac bod unrhyw benderfyniad mae’r Bwrdd yn ei wneud yn derbyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau a’r Cabinet er goruchwyliaeth, ac er mwyn sicrhau proses democrataidd i sicrhau bod y cyllidebau yn cael eu gwario’n ystyrlon a thryloyw.

Mewn ymateb i ymholiad am aelodaeth y Bwrdd, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd nad oedd yr aelodau etholedig ar y Bwrdd i gyd yn aelodau o Grŵp Plaid Cymru, gan gadarnhau bod drawstoriad o’r Cyngor yn bresennol yn y cyfarfodydd megis pum aelod cabinet, 2 aelod etholedig - cynrychiolydd o’r pwyllgor craffu a Phencampwr Bioamrywiaeth, ynghyd â nifer o uwch swyddogion.

Mewn ymateb i sylwadau a gyflwynwyd parthed sail ‘Risg o Symudiad Strategol’ a gyflwynwyd fel rhan o’r cais i graffu, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd bod angen i unrhyw un sydd yn dymuno derbyn arian o Gronfa Cynllun Hinsawdd lenwi ffurflen a fyddai’n derbyn ystyriaeth y Bwrdd. Eglurwyd bod y ffurflen hon yn cynnwys nifer o amodau yn ogystal â manylu ar y budd a ddaw o gyflawni’r gwaith o dan sylw, er mwyn gallu penderfynu a fyddai caniatáu’r cais am arian yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau’r Cynllun Argyfwng. Nodwyd hefyd bod gwariant y Gronfa yn derbyn sylw’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi ymateb y swyddogion, cydnabod bod trefniadau llywodraethu mewn lle a pharhau i graffu’r Cynllun yn flynyddol.**
- **Argymell i’r Aelod Cabinet Amgylchedd y dylid ystyried dulliau i gynyddu ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus a chael mewnbwn y cyhoedd ac eraill.**
- **Gofyn bod gwybodaeth am wariant yn cael ei amlygu a’i fanylu yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur er sicrhau tryloywder.**

**6. ADOLYGIAD O’R CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a’r Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

Cadarnhawyd bod y cynllun diwygiedig wedi cael ei ddatblygu yn dilyn adborth o ymgynghoriad cyhoeddus a gyflawnwyd yn ystod misoedd yr haf 2025. Tynnwyd sylw bod newidiadau i brosiectau’r cynllun gan nodi hefyd bod nifer uwch o brosiectau.

Atgoffwyd bod y cynllun gwreiddiol yn manylu ar brosiectau mewnol i'r Cyngor yn unig, gan gadarnhau bod hyn bellach wedi ei newid i gynnwys prosiectau allanol hefyd. Ymhelaethwyd bod gwaith pellach wedi cael ei gyflawni ar y prosiectau gwreiddiol er mwyn sicrhau gwerth cyhoeddus ac i sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod pob cymuned yn ymuno gyda'r Cyngor er mwyn cynorthwyo i atal yr argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hyn yn arwain at effaith ar adnoddau gan adrodd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn ceisio amcangyfrifo costau rhai prosiectau.

Pwysleisiwyd bod nifer o ffactorau wrth ddelio gyda'r argyfwng hinsawdd a natur y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, gan bwysleisio bod popeth yn cael ei wneud er mwyn ymdrechu i fynd i'r afael a'r argyfwng tra mae llywodraethau eraill yn fwy ymrwymol i'r achos.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Manylwyd ar ganrannau rhai o gwestiynau penodol yr ymgynghoriad cyhoeddus gan ystyried byddai'n ddefnyddiol i gynnwys rhai cwestiynau agored. Teimlwyd byddai cynnwys cwestiynau o'r fath yn arwain at awgrymiadau a fyddai'n gwella gwasanaethau i'r dyfodol ac yn ddull o dderbyn syniadau newydd i'w datblygu yn y maes. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd y byddai cynnwys cwestiynau o'r math yma yn cael ei ystyried yn y dyfodol.

Derbyniwyd rhai sylwadau o bryder nad oedd y Bwrdd yn ymateb yn ddigon effeithiol gan nad oedd yn derbyn gwybodaeth wyddonol arbenigol. Ymhelaethwyd mai swyddogion profiadol y Cyngor sydd yn rhan o'r Bwrdd yn ogystal ag Aelodau Etholedig gan amlygu'r angen am arbenigwyr penodol o fewn meysydd gwyddoniaeth. Yn yr un modd, pryderwyd bod rhai o brosiectau'r cynllun yn arwain at gostau cynyddol gan awgrymu y gall cyfran o'r arian hwn gael ei ddefnyddio i ymateb i heriau presennol sydd yn effeithio pobl Gwynedd yn hytrach nac ymdrechu i ddatrys problemau a all godi yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at dudalen 6 o'r Cynllun a oedd yn nodi : "...byddwn yn parhau i leihau ein allyriadau dros y degawdau nesaf hyd nes ein bod yn cyrraedd y targed o sero net', gan ystyried os yw lleihau allyriadau dros ddegawdau nesaf yn darged anghyrraeddadwy. Trafodwyd yr angen i addasu'r geiriad hwn er mwyn cynnwys targed realistig ac uchelgeisiol i'r dyfodol. Mewn ymateb, cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol gyda'r sylwadau hyn gan bwysleisio ei fod yn allweddol i osod targedau realistig gan nad yw'n debygol bydd modd cyfarch y nôd.

Tynnwyd sylw bod Adran 10 o'r Cynllun yn nodi bod cyfraddau allyriadau carbon yn y maes gwastraff yn sero erbyn hyn. Gofynnwyd o ystyried bod allyriadau carbon yn deillio o losgi gwastraff gweddilliol ym Mharc Adfer, sut oedd allyriadau'r maes yma yn sero. Mewn ymateb, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet byddai gwybodaeth bellach ar y mater hwn yn cael ei rannu gyda'r Aelodau. Awgrymodd y dylai aelodau ymweld â Pharc Adfer er mwyn dysgu mwy am y broses.

Adroddwyd bod cynllun peilot ar y gweill er mwyn lleihau gwastraff cyhoeddus drwy gyflwyno bocsys glas ailgylchu cymunedol. Gofynnwyd os oes modd derbyn adborth ar y cynllun hwn a gweld os oes cynlluniau er mwyn ymestyn y cynllun i ardaloedd gwledig y Sir. Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd nad oedd canlyniadau'r peilot ar gael ar hyn o bryd ac byddent yn cael eu rhannu cynted a bod modd er mwyn gweld os oes modd ehangu'r cynllun.

Yn yr un modd, ystyriwyd os oedd cynnwys rhai o brosiectau newydd o fewn adran 10 y Cynllun yn gynamserol. Manylwyd bod prosiectau i hyrwyddo economi gylchol ac i leihau gwastraff stryd yn nodi nad oes modd mesur arbedion carbon a chadarnhaodd Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd bod hyn oherwydd eu bod yn amrywio o achos i achos.

Diolchwyd am yr adroddiad, gan nodi y fyddai'n fuddiol i gynnwys adran ychwanegol yn y Cynllun neu greu dogfen ar wahân yn dathlu llwyddiant y cynllun hyd yma gan fanylu ar faint o arian sydd wedi cael ei arbed yn ogystal â manylder ar ddatblygiadau'r holl gynlluniau a'r arbedion carbon sy'n deillio ohonynt.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Bod y Pwyllgor yn croesawu'r bwriad i ail-edrych ar y targed i'r Cyngor fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030.**
- **Argymell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd:**
    - **y dylid cyfathrebu llwyddiannau a'r gwaith a gyflawnwyd i wireddu'r Cynllun gyda'r cyhoedd.**
    - **bod angen cynyddu'r defnydd o gwestiynau agored mewn ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn derbyn ymatebion a fyddai'n cyfoethogi'r wybodaeth ar gael i lywio cyfeiriad i'r dyfodol.**
    - **y dylid ystyried addasu'r geiriad canlynol: "...byddwn yn parhau i leihau ein hallyriadau dros y degawdau nesaf hyd nes ein bod yn cyrraedd y targed o sero net' (Tudalen 6, Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, Fersiwn 2), er mwyn bod yn fwy uchelgeisiol o ran cyrraedd y targed.**

**7. TEITHIO LLESOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd, Trafnidiaeth a Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol.

Atgoffwyd bod ystod eang o gynlluniau ar waith ar draws y Sir, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Rhannwyd enghreifftiau o brosiectau cyffelyb sydd ar waith gan bartneriaid y Cyngor er mwyn rhoi darlun cyflawn o'r rhwydwaith teithio llesol.

Eglurwyd bod prosiectau yn cael eu blaenoriaethu drwy weithredu dwy ffrwd grant sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ymhelaethwyd bod un yn ymwneud yn benodol â teithio llesol a llwybrau diogel o fewn cymunedau ac ar gyfer ysgolion. Manylwyd yr angen i asesu gwahanol prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn cyfarch meini prawf y grantiau hynny er mwyn cael eu cymeradwyo. Diweddarwyd bod cynlluniau teithio llesol hefyd yn derbyn ystyriaeth bellach o dan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Adroddwyd bod datblygiadau teithio llesol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gyda gwahanol brosiectau ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd. Nodwyd bod hyn yn caniatáu i lwybrau newydd gael eu datblygu yn rheolaidd i gyfarch anghenion cymunedau.

Tynnwyd sylw bod yr Adran yn awyddus i gynyddu cyfleoedd grantiau sydd ar gael yn y maes hwn i'r dyfodol. Ymhelaethwyd ar yr her barhaus o gynnal a chadw'r llwybrau hyn gan atgoffa bod arian cyfalaf yn cael ei ddarparu i osod y seilwaith ond nad oes arian

ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Cyngor i'w cynnal a'u cadw. Cydnabuwyd bod nifer o'r llwybrau hyn yn cael eu datblygu ar ymylon priffyrdd ond pwysleisiwyd nad yw'r rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd yn cyfarch anghenion defnyddwyr y llwybrau teithio llesol er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu hysgubo yn ddigonol a sicrhau bod tyfiant yn cael ei reoli. Nodwyd y gobeithir byddai llwyddo i ariannu rhaglen cynnal a chadw effeithiol yn cyflawni nod y prosiect megis lleihau tagfeydd traffig ac i sicrhau nad oes problemau parcio mewn ardaloedd trefol. Nodwyd bod yr adran wedi cyflwyno Bid Un Tro am arian i geisio cyfarch y galw am y gwaith hwn eleni. Pwysleisiwyd bod swyddogion hefyd yn datblygu pecyn i gefnogi ac arfogi ysgolion i hyrwyddo defnydd o'r llwybrau hyn i'r dyfodol.

Mynegwyd balchder bod yr Adran yn cydweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu llwybrau a fyddai o gymorth i bartneriaid y Cyngor. Rhannwyd enghraifft penodol o lwybr teithio llesol yn ardal Penrhosgarnedd, Bangor, ble gobeithir bydd defnydd o'r llwybrau hynny yn lleihau baich traffig a pharcio ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty Gwynedd a'r ardal ehangach. Atgoffwyd bod mapiau o lwybrau llesol ar gael sydd yn manylu ar eu lleoliadau ar draws Gwynedd ac yn genedlaethol.

Pwysleisiwyd nad oes asesiad risg mewn lle ar gyfer sefyllfa ble nad oes arian yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i ariannu gwaith cynnal a chadw'r llwybrau. Tynnwyd sylw penodol am ddifrod i lwybr Lôn Eifion yn 2025 yn dilyn storm, gan nodi bod rhan o'r llwybr bellach ar gau. Amcangyfrifwyd bydd y gost o adnewyddu'r llwybr oddeutu £90,000 a bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn canfod ffynonellau i'w ariannu cyn gynted a bod modd.

Cyfeiriwyd at ffynonellau cyllidol gan gadarnhau bod cynlluniau teithio llesol yn derbyn cymorth ariannol gan Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd i'r dyfodol, gyda'r bwriad o ddatblygu rhwydwaith ehangach o lwybrau yn rhanbarthol.

Eglurwyd bod datblygu a chynnal a chadw llwybrau teithio llesol yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd gan gadarnhau nad oes disgwyliad i Gynghorau Tref a Chymuned i wneud hynny. Fodd bynnag, diolchwyd i Gynghorau cymuned ac aelodau'r cyhoedd am eu gwaith o dacluso'r llwybrau drwy gynorthwyo i gasglu sbwriel a sicrhau bod y llwybrau yn glir ar gyfer defnyddwyr.

Adroddwyd bod gwaith ymgysylltu wedi cael ei gwblhau o fewn y maes hwn wrth i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gwblhau ynglŷn â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ddiweddar. Nodwyd hefyd bod dros 2000 o ymatebion wedi dod i law wrth i fapiau'r teithio llesol gael eu cyflwyno yn 2001 gan atgyfnerthu'r diddordeb cyhoeddus yn natblygiad y cynllun.

Nodwyd bod £2.4miliwn o gyllideb wedi cael ei ddyrannu ar gyfer cyllido rhai o brosiectau'r cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol 2026/27 gan egluro na fydd hyn yn gyllideb digonol ar gyfer cyfarch yr holl brosiectau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Manylwyd ar y rhestr o brosiectau sydd ar y gweill gan nodi bod nifer o ddatblygiadau megis llwybr rhwng Caernarfon a Chaeathro wedi cael ei raglennu ar gyfer y tymor hir. Atgoffwyd bod damwain angheuol wedi digwydd yn yr ardal hon gan bwysleisio'r angen i ddatblygu'r llwybr. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod y prosiectau hynny sydd wedi cael eu rhaglennu yn y tymor hir yn debygol o gael eu cyflawni mewn oddeutu 10 mlynedd neu fwy, gyda phrosiectau tymor canolig yn cael eu cyflawni mewn 5 i 10 mlynedd. Ymhellach, cydymdeimlwyd bod damwain wedi

digwydd ar y ffordd yn yr ardal hwn yn ddiweddar gan gydnabod hefyd bod hyn, yn anffodus, yn wir ar gyfer nifer o ardaloedd eraill yng Ngwynedd a fyddai'n elwa o lwybrau cyffelyb.

Ystyriwyd y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau hyn. Gofynnwyd a oes enghreifftiau o ardaloedd ble mae costau torri gwair ac ymylon ffyrdd wedi cael ei leihau dros amser gan fod ymylon ffyrdd gwelltog wedi cael ei amnewid am lwybr tarmac. Yn debyg, ystyriwyd os oes enghreifftiau ble mae costau cynnal priffyrdd wedi cynyddu gan fod mwy o waith ysgubo a chynnal llwybrau teithio llesol gan eu bod wedi eu lleoli ar ymyl y priffyrdd. Mewn ymateb i'r sylwadau, diolchodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran am y sylwadau a bydd gwaith yn cael ei wneud i asesu cyllidebau i ymchwilio i mewn i'r mater.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran y gellir edrych i mewn i'r posibilrwydd o ariannu costau cynnal a chadw'r llwybrau teithiol llesol drwy Ardoll Ymwelwyr.

Mewn ymateb i ymholiadau a sylwadau ynglŷn â chynghorau tref a chymuned, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oes disgwyl i unrhyw gyngor i wario ar y llwybrau teithio llesol. Diolchwyd iddynt am eu gwaith o gydweithio gyda'r Cyngor am eu cynnal a chadw ac i wneud rhwydwaith o lwybrau cyffelyb mewn rhai ardaloedd. Eglurwyd bod y Cyngor hefyd yn cydweithio â nhw o ran y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gan nodi bod modd derbyn gwybodaeth ychwanegol am y cynllun hwnnw yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad pellach ar y gwaith trwsio sydd i'w wneud ar ran o lwybr Lôn Eifion ym Mhenygroes, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran y disgwylir i'r rhan hwn o'r llwybr fod ar agor erbyn y Pasg. Ymhelaethwyd bod gwaith yn cael ei wneud dros yr wythnosau nesaf i gomisiynu'r gwaith. Tynnwyd sylw mai dau aelod o staff sydd yn cydlynu'r prosiect o ddatblygu'r llwybrau gan ddiolch iddynt am eu gwaith o geisio sicrhau bod y llwybrau yn hygyrch i ddefnyddwyr. Aethpwyd ymlaen i nodi y golyga hyn nad oes modd cynnal archwiliadau ar goed ar hyn o bryd er mwyn asesu risg, gan nodi bod y Bid Un Tro yr ymgeisiwyd amdano gan yr Adran yn cael ei ddefnyddio i gyfarch y math yma o waith os yw'n llwyddiannus.

Pwysleisiwyd bod swyddogion yn lobio yn gyson i dderbyn mwy o arian i ddatblygu rhwydwaith y llwybrau teithio llesol, gan nodi byddai prosiectau sydd wedi cael eu rhaglennu ar gyfer gwaith yn y tymor canolig a thymor hir yn cael eu cyflawni yn gyflymach os byddai'r gwaith lobio yn llwyddiannus.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Bod y Pwyllgor yn croesawu'r gwaith o geisio cyfarch costau cynnal a chadw llwybrau teithio llesol.**
- **Argymell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd:**
    - **bod angen edrych ar wariant ar gyfer cynnal a chadw llwybrau teithiol llesol a chostau torri gwair a thyfiant ar eu hymylon er mwyn ystyried a oes unrhyw arbedion posib.**

- **y dylid cynnwys cwestiynau ynghylch cynnal a chadw llwybrau teithiau llesol a chwestiwn am faterion lleol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.**
- **y dylid edrych ar drefniadau asesiadau risg.**

**8. ADRODDIAD CYNNYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor a Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Cyflwynwyd crynodeb o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (y Bwrdd) i weithredu Cynllun Llesiant 2023-2028.

Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei drydedd flwyddyn o'i gynllun pum mlynedd, gan gadarnhau y gellir tystiolaethu cynnydd cadarnhaol i'w amcanion. Ymhelaethwyd bod y mwyafrif o amcanion wedi cael eu cwblhau neu'n datblygu yn unol â'u hamserlen. Mynegwyd balchder bod y Bwrdd wedi llwyddo i gydweithio gyda'i bartneriaid ar lefel gweithredol a strategol ac yn rhannu adnoddau ac arfer dda yn gyson gyda'i gilydd.

Ymfalchïwyd bod y Bwrdd wedi llwyddo i wella'r bartneriaeth a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynydd Plant sydd bellach wedi arwain at waith arloesol ar draws sawl maes blaenoriaeth.

Cadarnhawyd bod Is-grŵp Iaith y Bwrdd wedi cwblhau prosiect 'Ymarferion Recriwtio Da' yn ogystal â phrosiect 'Chwalu Mythau am Weithio yn Gymraeg'. Pwysleisiwyd bod y gwaith hwn yn amlygu bod blaenoriaethu'r iaith Gymraeg yn egwyddor sydd yn cael ei ymgorffori'n drawsbynciol ym mhob elfen o waith y Bwrdd.

Mynegwyd balchder bod y Bwrdd yn parhau i fod yn arloesol drwy fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cyntaf i gyd-arwyddo Siarter Teithio Llesol. Nodwyd bod hyn yn amcan o fewn eu blaenoriaeth hinsawdd gan gadarnhau bod chwech o aelodau'r bwrdd bellach wedi ymrwymo iddo'n ffurfiol gan ymhelaethu bod pedwar partner arall yn y broses o wneud hynny.

Pwysleisiwyd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn datblygu'r Bwrdd i fod yn wybodus am drawma. Eglurwyd bod sesiynau arbenigol wedi cael eu cynnal ar gyfer holl Aelodau'r Bwrdd gyda gwaith dilynol er mwyn asesu dealltwriaeth a'u harferion cyfredol. Cadarnhawyd bod bwriad i ehangu'r hyfforddiant hwn ar draws Gogledd Cymru.

Cyfeiriwyd at rai o ddatblygiadau pellach y Bwrdd megis cydweithio gyda Thîm Pwysau Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu adnoddau sydd yn helpu sefydliadau adolygu eu polisïau mewnol ar gyfer dull system gyfan. Yn debyg, ymfalchïwyd bod safle gwe ranbarthol (agenda.cymru) wedi ei sefydlu er mwyn rhannu adnoddau ac arferion da gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws rhanbarth gogledd Cymru.

Diolchwyd i'r Pwyllgor Craffu hwn am eu sylwadau ac argymhellion i herio'r Bwrdd yn adeiladol er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn cyflawni canlyniadau ystyrlon i drigolion.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Diolchwyd i'r Bwrdd am eu gwaith i fod yn Wybodus o Drawma yn ogystal â gwaith sydd yn cael ei wneud i gynorthwyo unrhyw un sydd yn byw mewn tlodi. Croesawyd gwaith y Bwrdd i adnabod o ble mae trawma a thlodi yn deillio a gweithio ar ffyrdd i gyfarch hynny'n effeithiol. Cyflwynwyd ystadegau ar dlodi ymysg plant gan egluro yr amcangyfrifwyd bod 4.5miliwn o blant yn byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig (31% o boblogaeth plant). Pwysleisiwyd mai 23.6% yw'r ffigwr ar gyfer plant sydd yn byw mewn tlodi yng Ngwynedd. Cadarnhawyd bod hynny'n gyfwerth â 4571 o blant Gwynedd. Tynnwyd sylw bod o leiaf un rhiant yn byw mewn tlodi ar gyfer pob un o'r plant yn y ffigwr hwn, sydd oddeutu 6-7mil o bobl. Diolchwyd i'r Aelodau am y sylwadau ac am gyflwyno'r ystadegau pwysig yma gan gadarnhau bod Prifysgol Bangor yn adnodd wych wrth fynd i'r afael â materion tlodi gyda prosiect cyffrous ar waith ym Maesgeirchen. Ymhellach, nodwyd bod gwaith cydweithio gyda banc bwyd, Bwyd Da Môn er mwyn gweld o ble mae cyfeiriadau yn deillio ohono gan ymchwilio i weld os yw'r data yn gyffelyb i'r hyn a welir yng Ngwynedd hefyd.

Mewn ymateb i ymholiad a oedd adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' wedi cyfrannu i waith y bwrdd er mwyn bod yn wybodus o drawma, cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen bod yr adroddiad yn derbyn sylw'r Bwrdd. Diolchwyd i Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn am eu gwaith blaenllaw yn arwain y ffordd yn y maes yma, gan gadarnhau bod yr adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' yn derbyn sylw teilwng ar raglen waith y Bwrdd i'r dyfodol.

Tynnwyd sylw bod Cyngor Sir Ynys Môn eisoes yn gyngor sydd gyda achrediad Gwybyddus o Drawma, gan holi os oes cynlluniau ar waith i sicrhau bod Gwynedd yn derbyn yr achrediad hwn hefyd. Mewn ymateb, cadarnhaodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Cyngor Sir Ynys Môn ynglŷn a'r broses o dderbyn yr achrediad hwn. Ymhelaethwyd bod swyddogion Cyngor Gwynedd o blaid derbyn yr achrediad hwn gan gadarnhau bod yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd eisoes yn Wybodus o Drawma. Nodwyd bod pob Adran o'r Cyngor yn gwneud ymholiadau er mwyn gweld sut allen nhw gyfrannu i'r achrediad a pwysigrwydd ei dderbyn i'w hadran, gan gadarnhau bydd amserlen yn cael ei lunio.

Mewn ymateb i ymholiad pellach ar y prosiect o 'Chwalu Mythau am Weithio yn Gymraeg', cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen bod Gyrfa Cymru yn cydweithio gyda'r Bwrdd er mwyn llunio briff o'r mythau sydd yn bodoli a sut gellir eu datrys. Nodwyd bod y prosiect hwn yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a fideos er mwyn chwalu'r mythau megis drwy wneud cynnwys ar gyfer Tiktok ac Instagram. Pwysleisiwyd bod sefydliadau amrywiol o ogledd Cymru yn cyfrannu i'r prosiect hwn er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cynnwys lleisiau pobl gyffredin.

Diolchwyd am yr adroddiad gan longyfarch y Bwrdd ar eu gwaith.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Bod y Pwyllgor yn croesawu gwaith y Bwrdd yng nghyswllt tlodi, hawliau plant a bod yn drawma wybodus.**

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Atgoffwyd bod blaenraglen ddiwygiedig wedi ei fabwysiadu ar gyfer 2025/26 gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 06 Tachwedd 2025.

Nodwyd bod eitem 'gweithrediad Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi ei raglennu ar gyfer y cyfarfod hwn (22 Ionawr 2026). Adroddwyd bod dyfarniad yr Uchel Lys ar 27 Tachwedd 2025 wedi diddymu Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac fe wrthodwyd cais llafar y Cyngor am ganiatâd i apelio'r penderfyniad hwn. Ymhelaethwyd bod cais ysgrifenedig i apelio'r penderfyniad wedi cael ei gyflwyno gan egluro bydd gwrandawiad yn y Llys Apêl os yw'r cais yn cael ei dderbyn. Eglurwyd oherwydd y sefyllfa gyfreithiol hon, nid yw'n briodol i'r Pwyllgor hwn graffu'r mater ar hyn o bryd ac argymhellwyd nodi'r mater fel eitem i'w graffu pan fydd yn amserol.

Ymhellach, adroddwyd bod eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion' wedi ei raglennu ar gyfer y cyfarfod hwn (22 Ionawr 2026). Eglurwyd bod yr Adran Amgylchedd wedi cyflwyno cais i'r eitem hon lithro i'r rhaglen waith ar gyfer 2026/27 gan bod amodau y tu hwnt i reolaeth yr adran wedi codi a olygir bod rhaglen waith y Cynllun wedi llithro. Cadarnhawyd mai un o'r ffactorau hyn oedd disgwyl am ddata cyfredol megis rhagamcanion twf aelwydydd gan Lywodraeth Cymru.

Adroddwyd o ganlyniad, bod eitem 'Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' wedi ei ail-raglennu i'r cyfarfod yma o gyfarfod 19 Mawrth 2026.

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo rhaglen waith ddiwygiedig fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd yr Ymgynghorydd Craffu byddai'r sefyllfa o ran Erthygl 4 yn cael ei fonitro a byddai Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn trafod yr amserlen yn eu cyfarfod cyswllt gyda'r Aelod Cabinet Amgylchedd a Phennaeth Adran Amgylchedd.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadwyd rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 1:00yp

_____________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 19/03/26 |
| **TEITL** | Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| **AWDUR** | Daron Owens / Laura Evans - Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Mon |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn flynyddol er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2006.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Gwaith y bartneriaeth dros y flwyddyn
- Blaenoriaethau’r bartneriaeth a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol

**3. Crynodeb a’r Materion Allweddol**

Mae’r adroddiad yn crynhoi gwaith y Bartneriaeth dros y flwyddyn yn ogystal â chyfeiriad y gwaith dros y flwyddyn nesaf.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR:**

- Mae'r adroddiad yn nodi gweithgareddau’r Bartneriaeth ers i ni gyflwyno i'r Panel Craffu ddiwethaf ym mis Ionawr 2025.

- Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Dyma’r prif asiantaethau sy’n ffurfio’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae yna hefyd bartneriaid ychwanegol megis y Bwrdd Cynllunio Ardal (camddefnyddio sylweddau), Addysg, Cyfiawnder Ieuenctid a Cydlyniant Cymunedol.

- Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod y Cyngor yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef y Cynghorydd Dilwyn Morgan, a'r prif swyddog gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd Presennol y Bartneriaeth).

- **Yn wreiddiol, galwyd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, nid yw'r cyfrifoldebau ac maent yn parhau i fod -** trosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau, lleihau aildroseddu.
  -Dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddyletswydd statudol hefyd i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs). Mae'r rhain yn adolygiad o'r amgylchiadau pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan— (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos, neu (b) yn aelod o'r un aelwyd ag ef ei hun, gyda golwg ar nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth. Yng Nghymru, o 1 Hydref 2024 ymlaen, caiff y ddyletswydd statudol hon ei chyflawni drwy'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), sy'n ymgorffori Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) o fewn yr un broses adolygu a ddefnyddir bellach ar gyfer pob adolygiad diogelu yng Nghymru.
  -Yn dilyn diwygiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn o ganlyniad i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i atal a lleihau trais difrifol.

- Mae presenoldeb da bob amser yn y cyfarfodydd chwarterol. Mae'r Partneriaid a'r Aelodau Lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol. Rhennir data chwarterol ar ffigurau trosedd a diweddariadau chyflawniad y cynllun ym mhob cyfarfod. Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol at sefydlu dadansoddwr partneriaeth, fel y gellir darparu data rheolaidd i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDC yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn '**broblem i bawb'** ac nid i'r Heddlu yn unig.

- Nid ydym yn comisiynu unrhyw brosiectau neu wasanaethau yn uniongyrchol (dim ond y DHRs) **gan nad oes unrhyw arian yn cael ei ddyrannu yn barhaol i Ddiogelwch Cymunedol. Mae cyllid ar gyfer prosiectau penodol yn ddibynnol ar gyfleoedd grant a dim ond ar gael trwy wneud cais amdanynt.**

- Mae'r bartneriaeth yn gweithio yn unol â chynllun blynyddol. Ynghlwm mae cynllun 2025-26, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau **rhanbarthol** y Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Fwy Diogel:

- Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r Afael â Thrais Difrifol
- Mynd i'r Afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

**TROSOLWG O LEFELAU TROSEDDU DROS Y CYFNOD ADRODD**:

- *Mae'r Heddlu'n ystyried ffigurau trosedd yn gyson, ac yn adolygu pob newid yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn destun dadansoddiad pellach. Yna bydd meysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau plismona ar waith i fynd i'r afael arnynt. Mae dulliau plismona lleol yn cynnwys gosod adnoddau bob dydd i fynd i'r afael â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg.*

- *Mae'r Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu bob chwarter. Y data a ddefnyddiwn yn gyffredinol yw data cymhariaeth rhwng y cyfnod yn y flwyddyn gyfredol, a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.*


***DATA TROSEDDU***:

*Mae'r tabl isod yn amlygu niferoedd y flwyddyn hyd yma (YTD) ym mhob categori trosedd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26. Defnyddir data cymharol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a Rhagfyr 31 ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol. Hefyd wedi'i gynnwys ar y siart, mae'r newid cyfredol flwyddyn hyd yma ar gyfer 2025/26 o gymharu â 2024/25 a chymhariaeth â'r newid cyffredinol a welir ar draws Gogledd Cymru:*

**Gwynedd**


| Gwynedd - Crime & Incident Data | Fiscal Year | | % Change (YTD) | *North Wales % Change (YTD)* |
|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 (YTD) | 2025/26 (YTD) | | |
| **All Victim Based Crime** | 6,419 | 6,648 | **3.6%** | *0.6%* |
| **Violence with injury (VAP)** | 908 | 808 | **-11.0%** | *-5.1%* |
| **Violence without injury (VAP)** | 1,179 | 1,293 | **9.7%** | *4.0%* |
| **Stalking & Harassment** | 1,150 | 1,094 | **-4.9%** | *-5.5%* |
| **Sexual offences** | 402 | 396 | **-1.5%** | *5.8%* |
| **All Acquisitive Crime** | 1,546 | 1,626 | **5.2%** | *-0.4%* |
| - Burglary Residential | 139 | 124 | **-10.8%** | *-6.6%* |
| - Burglary - Business and Community | 80 | 72 | **-10.0%** | *-18.2%* |
| - Robbery | 16 | 34 | **112.5%** | *12.4%* |
| - Vehicle Crime | 148 | 155 | **4.7%** | *-3.2%* |
| - Theft and Handling | 1,163 | 1,241 | **6.7%** | *1.8%* |
| **Criminal Damage & Arson** | 754 | 776 | **2.9%** | *-6.3%* |
| **Domestic Crime** | 1,245 | 1,205 | **-3.2%** | *-3.6%* |
| **Domestic Incidents (non-crime)** | 683 | 758 | **11.0%** | *15.0%* |
| **Hate Crime** | 185 | 160 | **-13.5%** | *-0.8%* |
| **Anti-Social Behaviour** | 1,806 | 1,793 | **-0.7%** | *-3.8%* |
| **Substance used by Offender** (Alcohol and/or Drugs) | 581 | 623 | **7.2%** | *3.2%* |

**Trais yn erbyn y Person (VAP)**





Hyd yma eleni, mae troseddau trais yn erbyn y person wedi cynyddu ychydig (0.6%) yng Ngwynedd yn 2025/26, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn unol â'r gostyngiad ymylol o 0.3% a welwyd ledled Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
Er bod troseddau *Trais â anafiadau* wedi gostwng, bu cynnydd yn nifer y troseddau *Trais heb anafiadau* hyd yma, yn ystod y flwyddyn ariannol hon, o'i gymharu â'r llynedd.

**Stelcian ac Aflonyddu**




Mae data blwyddyn hyd yma ar gyfer 2025/26 yn dangos gostyngiad o -4.9% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25. Mae'r gostyngiad hwn yn unol â ffigurau Gogledd Cymru yn gyffredinol, lle gwelwyd gostyngiad o -5.5% hyd yma, yn ystod y flwyddyn ariannol hon, o'i gymharu â'r llynedd.


**Troseddau Rhywiol**




Mae lefel y troseddau rhywiol a gofnodwyd blwyddyn hyd yma yn 2025/26 yng Ngwynedd wedi gweld gostyngiad bach (-1.5%) o'i gymharu â 2024/25. Gall fod amrywiadau sylweddol mewn troseddau a adroddir o wythnos i wythnos, yn rhannol oherwydd adrodd am droseddau hanesyddol.

Mae'r gostyngiad yng Ngwynedd yn gyferbyniol i'r darlun o ran nifer y Troseddau Rhywiol ledled Gogledd Cymru hyd yn hyn yn 2025/26, gyda chynnydd o 5.8% wedi'i weld yn gyffredinol.

**Troseddau Meddiangar**





Mae Troseddau Meddiangar yn cynnwys y categorïau *Byrgleriaeth Breswyl, Byrgleriaeth Busnes a Chymuned, Lladrad, Troseddau Cerbydau a Dwyn a Thrin.*

Mae'r ddwy gategori *Byrgleriaeth Breswyl* a *Byrgleriaeth Busnes a Chymuned* wedi gweld gostyngiadau yn y nifer eleni, o'i gymharu â'r llynedd, tra bod nifer y *Troseddau Cerbydau* a *Dwyn a Thrin* wedi gweld ychydig o gynnydd.


Er bod nifer y *lladradau* yn fach, bu cynnydd amlwg yn y niferoedd hyd yn hyn yn 2025/26. Mae dadansoddiad o'r troseddau hyn yn dangos cynnydd mewn rhai wardiau ym Mangor, yn enwedig Deiniol a Menai (Bangor). Nid yw'r data yn dangos patrymau clir yn y troseddau, heb unrhyw amheuwyr ailadroddus. Yn gyfan gwbl, mae 24 o unigolion wedi'u cysylltu fel amheuwyr, neu wedi'u harestio neu'u cyhuddo mewn cysylltiad â 17 o'r troseddau.

**Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol**




Mae cynnydd bach (2.9%) yn nifer blwyddyn hyd yma o Ddifrod Troseddol a Llosgi Bwriadol wedi'i weld hyd yn hyn, yng Ngwynedd, o'i gymharu â 2024/25. Mae'r cynnydd hwn yn wahanol i'r darlun ledled Gogledd Cymru, lle gwelwyd gostyngiad (-6.3%).


**Trosedd Ddomestig**




Mae Trosedd Ddomestig yng Ngwynedd wedi gostwng o -3.2% y flwyddyn ariannol hon, o'i gymharu â'r llynedd, o'i gymharu â niferoedd y llynedd. Yn gyffredinol, mae Gogledd Cymru hefyd wedi gweld gostyngiad tebyg yn Nhrosedd Ddomestig (-3.6%), flwyddyn ariannol hon.


Mae *Digwyddiadau Domestig (Nad ydynt yn Drosedd)* yn alwadau a dderbynnir gan Ystafell Reoli Heddlu Gogledd Cymru sydd â themâu domestig iddynt; fodd bynnag nid ydynt yn ffurfio trosedd ac felly nid ydynt yn cael eu cofnodi ar system rheoli cofnodion yr heddlu. Maent yn cynnwys digwyddiadau megis anghydfodau domestig llafar, lle nad oes troseddau wedi digwydd. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynhyrchu atgyfeiriad CID 16, i'w ystyried ar gyfer ei rannu gyda'r partneriaid diogelu perthnasol. Mae cynnydd wedi'i weld yn nifer y digwyddiadau nad ydynt yn drosedd yng Ngwynedd yn 2025/26, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn, er ei fod yn gyfran uwch, hefyd wedi'i weld ledled Gogledd Cymru.

**Troseddau Casineb**




Mae data blwyddyn hyd yma ar gyfer Troseddau Casineb yng Ngwynedd ar gyfer 2025/26 yn dangos gostyngiad o -13.5% o’i gymharu â’r un cyfnod yn 2024/25. Mae’r gostyngiad hwn wedi’i weld ledled Gogledd Cymru yn 2025/26, ond i raddau llawer llai (-0.8%).

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**




Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Ngwynedd wedi gweld gostyngiad blwyddyn hyd yma o -0.7% yn 2025/26, o’i gymharu â’r un cyfnod yn 2024/25. Ledled Gogledd Cymru, bu gostyngiad o -3.8% yn nifer yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol hyd yma eleni, o’i gymharu â 2024/25.

Mae dioddefwyr ailadroddus Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, lleoliadau ailadroddus lle mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn digwydd, ac unigolion bregus sydd mewn perygl uchel yn cael eu cyfeirio at grwpiau tasgau amlasiantaethol misol i'w hadolygu.

**BETH SYDD WEDI EI GYFLAWNI YN YSTOD 2025:**

- Datblygwyd y cynllun blynyddol yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Rhanbarthol Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru. Mae cynllun 2025-26 (ynghlwm) yn nodi gweithgaredd yr oedd y Bartneriaeth am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Rhannwyd ffigyrau trosedd yn chwarterol drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel y gellir trafod unrhyw dueddiadau a gweithgaredd ychwanegol roedd ei angen.

- Fel nodir uchod, mae gennym ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004 i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR). Yn anffodus, roedd 3 DHR ar y gweill eleni a derbyniwyd 2 gyfeiriad am adolygiadau newydd. Mae'n anochel bod gan y gwaith hwn oblygiadau sylweddol a pharhaus o ran adnoddau. Ers Hydref 2024, yng Nghymru mae DHRs yn cael eu cynnwys o fewn y broses newydd Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR). O hyn ymlaen, byddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyda'm dyletswyddau DHR.

<u>Crynodeb o'r gwaith penodol a gwblhawyd eleni:</u>

- Gweithredu'r cynllun Diogelwch Cymunedol blynyddol yn barhaus ac adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel.
- Cyhoeddwyd y Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2024, mewn ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol genedlaethol. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Yn dilyn diwygiadau diweddar i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn, mae gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol rôl benodol mewn gweithredu strategol ar sail tystiolaeth ar drais difrifol, ac rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith strategaeth ranbarthol drwyddo draw.
- Fel rhan o'r Strategaeth Trais Difrifol ranbarthol, derbyniwyd y Bartneriaeth £65k ar gyfer prosiectau ataliol yn ein rhanbarth. Eleni, mae saith prosiect gwahanol yn cael eu cynnal. Yng Ngwynedd mae hyn yn cynnwys:
    1. Sesiynau 'Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol' a gynhelir mewn ysgolion gan RASASC Cymru (Rape and Sexual Abuse Support Centre). Mae hon yn ymgyrch addysgol, sy'n codi ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd eang trais rhywiol mewn cymdeithas, ac yn bwysicaf oll, sut y gallwn ddechrau newid agweddau ac ymddygiad.
    2. Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth ynghylch gwerthu 'vapes' anghyfreithlon a cham-fanteisio ar blant, er mwyn cynyddu adrodd a rhannu gwybodaeth.
    3. Cynyddu Darpariaeth Ieuenctid dros wyliau'r Haf a Hanner Tymor, trwy raglen a dargedir o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed, yn benodol yn y cymunedau hynny sy'n wynebu risg uwch o droseddu, trais a gweithgaredd gwrthgymdeithasol.

4. Prosiect dan arweiniad yr Adran Addysg gydag ysgolion i rymuso eu hymateb i leihau ac atal trais difrifol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant a sesiynau penodol gyda hwyluswyr allanol, prosiectau grŵp a mentora. Gan fod gwaharddiadau ysgol ar gynnydd sylweddol, nod y prosiect hwn oedd torri'r cysylltiad trwy ddod â phobl ynghyd i gefnogi ysgolion i wneud popeth posibl i gadw'r disgyblion mewn ysgolion a'u cadw'n ddiogel.

- Cwblhawyd y prosiect i uwchraddio a gwella CCTV ar draws Caernarfon, Bangor a Pwllheli a ariannwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Cyffredin. Yn seiliedig ar ddata'r Heddlu, dyrannwyd £456k i uwchraddio 'servers' hanfodol a chynyddu'r ddarpariaeth camerâu presennol.
- Gyda'r Heddlu, rydym wedi datblygu pecyn ymwybyddiaeth ar gyfer staff awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol eraill ynghylch a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOC neu *Serious Organised Crime*). Cafodd y pecyn ei dreialu ym mis Awst gyda Rheolwyr ac Arweinyddion Tîm i gael adborth, a bydd yn cael ei gyflwyno flwyddyn nesaf. Ein nod yw cynyddu dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o sut mae SOC yn amlygu ei hun yn ein cymunedau a'r perthnasedd i'w gwaith o ddydd i ddydd.
- Rydym wedi parhau i fod yn aelodau gweithredol o'r Panel Diogelu Strategol a Grŵp Gweithredu'r Cyngor, yn darparu mewnbwn yn enwedig ar faterion diogelu fel Atal, Trais Domestig a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol.
- Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niwed o fewn y Gwasanaeth Iechyd. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn rhanbarthol, er enghraifft cyflawni ar strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, ymateb i leoliadau sy'n peri pryder a chodi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael. Yn dilyn cais llwyddiannus i'r rhaglen grantiau bach, fe wnaethom drefnu gweithdy amlasiantaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol Gwynedd gydag arbenigwr enwog yn y maes ynghylch y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad. Roedd y digwyddiad wedi'i ordanysgrifio a chafodd dderbyniad da iawn, ac rydym yn awyddus i drefnu digwyddiadau tebyg pellach yn y dyfodol.
- Rydym yn parhau i fod yn aelodau o'r grŵp rhanbarthol i weithredu Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol ar gyfer Gogledd Cymru. Wedi'i hariannu gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, y nod yw lleihau effeithiau niweidiol yfed alcohol ledled Gogledd Cymru, trwy annog perthynas fwy diogel ac iachach ag alcohol. Mae'r Strategaeth wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar ar gyfer 25-28, ac mae dull cydweithredol, sy'n seiliedig ar bartneriaeth, yn cael ei fabwysiadu i leihau'r beichiau cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol.
- Gwnaed cais llwyddiannus i Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru i brynu offer 'target hardening' ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig. O ganlyniad, mae 100 o gamerâu diogelwch wedi'u darparu eleni i'w dosbarthu dros Wynedd ac Ynys Môn drwy ein partneriaid megis Gorwel, DASU, y llinell gymorth Byw Heb Ofn a'r Heddlu. Eleni mae'r Bartneriaeth hefyd yn ymwneud â gwaith rhanbarthol i safoni 'target hardening' yng Ngogledd Cymru, ar ffurf siarter neu gytundeb safonau gofynnol. Mae'r gwaith yma'n parhau ac wedi'i arwain gan y Tîm VAWDASV Rhanbarthol.
- Trefnodd y Bartneriaeth nifer o sesiynau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol yng Ngwynedd sy'n gweithio gyda bechgyn a dynion ifanc, ar sut i hwyluso deialog adeiladol

ynghylch gwrywdod a bod yn ddiogel a bod yn ddiogel i fod o gwmpas. Mae'r hyfforddiant arloesol hwn yn cael eu rhedeg gan Michael Conroy, gyda'r nod o fynd i'r afael â 'misogyny', rhywiaeth a thrais gan ddynion.

- Ym mis Medi, cysylltodd Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru â'r Cyngor i godi pryderon yn dilyn cynnydd mewn digwyddiadau o feicwyr yn gwrthdaro â phobl ddall. O ganlyniad, gwnaeth y Bartneriaeth gais i Raglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru i ariannu arwyddion i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd i annog defnydd parchus o'n llwybrau a rennir, fel y gellir atal gwrthdrawiadau ac anafiadau difrifol. Oherwydd y nifer fawr o geisiadau a dderbyniwyd, mae'r broses yn cymryd mwy o amser nag a obeithiwyd.
- Yn dilyn trafodaethau gyda Chymorth i Ferched Cymru ynghylch cefnogi goroeswyr cam-drin domestig B/byddar, trefnodd y Bartneriaeth hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL) trwy Goleg Llandrillo ar gyfer staff Siop Gwynedd a'n sefydliadau cam-drin domestig lleol. Mae'r hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer 12/03/26. Bydd adborth yn cael ei gasglu gan y mynychwyr i ddeall effaith yr hyfforddiant ac unrhyw ofynion pellach, a bydd sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd.
- Mae'r Bartneriaeth wedi parhau i fod yn bartner allweddol yn y fenter Clirio, Dal, Adeiladu *(Clear Hold Build*) ym Mangor – sef dull aml-asiantaeth dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol difrifol mewn ardal drwy aflonyddwch, sicrhau sefydlogrwydd, ac adeiladu gwydnwch.
- Rydym wedi gweithio gyda'r Heddlu i ddatblygu menter o'r enw 'Parthau Diogel' ym Mangor a Chaernarfon ar gyfer Atal Trais yn erbyn Menywod a Merched. Mae hwn yn gysyniad cymharol syml ond effeithiol, gan ganolbwyntio ar wyliadwriaeth naturiol, goleuadau a theledu cylch cyfyng cyfredol mewn lleoliadau penodol. Gwnaed cais i'r Swyddfa Gartref am gyllid i wneud y prosiect hwn yn bosibl, a mae'r cais wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r gwaith bellach yn symud yn ei flaen.
- Datblygodd y Bartneriaeth Barthau Crimestoppers newydd ym Maesgeirchen a Blaenau Ffestiniog. Nod y parthau hyn yw annog cymunedau i siarad am weithgarwch troseddol trwy wasanaeth adrodd unigryw'r elusen, gan fod yn sicr y bydd y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn parhau i fod yn gant y cant yn gyfrinachol.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL**

- Parhau i weithredu prosiectau lleol a nodir yn y cynllun blynyddol ac adrodd i Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel.
- Cwblhau gweithredu'r prosiectau ataliol o dan y Cyllid Dyletswydd Trais Difrifol.
- Parhau gyda'r achosion DHR/SUSR a chyflwyno i'r Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cymru am sicrwydd ansawdd.
- Os yn llwyddianus, cwblhau y prosiect i osod arwyddion ar lwybrau beicio mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.
- Cwblhau y prosiect Parthau Diogel ym Mangor a Caernarfon.
- Parhau i weithredu Clirio, Dal, Adeiladu ym Mangor.

- Cyd-gynhyrchu Cynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyda phartneriaid er mwyn sicrhau blaenoriaethau a pherchnogaeth ar y cyd.

**5. Ymgynghori**

N/A ddim yn berthnasol ar gyfer adroddiad diweddariad blynyddol.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

*Roedd y bartneriaeth wedi cynnwys trigolion Gwynedd drwy ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein ar estyniad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Bangor (PSPO) ym mis Hydref 2025. Roedd yr holl ymatebwyr yn gefnogol o hyn.*

A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

*Mae holl waith y Bartneriaeth yn **ddibynnol** ar gydweithio - rhwng y partneriaid cyfrifol (Cyngor Gwynedd a Môn,  Heddlu, Tân, Prawf, Iechyd) ac yn ehangach ar draws y rhanbarth (Y Bwrdd Rhanbarthol, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eraill y rhanbarth ayyb). Mae'r Bartneriaeth yn gweithio ar y cyd i gael y gwerth gorau gyda'r adnoddau sydd ar gael.*

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

*Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth benodol o fewn y Strategaeth Trais Difrifol Ranbarthol. Mae'r holl brojectau lleol yr ydym wedi comisiynu gyda'r cyllid Trais Difrifol wedi'i selio ar y bwriad o atal trais.*

*Yn ogystal, mae'r hyfforddiant sydd wedi'i drefnu gan y Bartneriaeth gyda'r bwriad o atal y digwyddiadau yma a chefnogi gweithwyr proffesiynol i ymyrryd yn gynharach.*

*Mae CCTV yn cael ei gydnabod fel ataliad gweladwy i drosedd ac yn arf werthfawr i'r Heddlu gael mynediad amserol i dystiolaeth o safon uchel iawn.*

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

*Mae'r hyfforddiant yr ydym yn trefnu gyda hirhoedledd ymhell ar ôl iddynt gymryd lle. Mae'r wybodaeth ar sgiliau yn cael eu defnyddio drwy gydol ymarfer gweithwyr proffesiynol ac yn cael*

*eu rhannu drwy asiantaethau. Mae ystadegau diweddar yn dangos graddfa trais yn erbyn menywod yn y wlad, ac nid yw'r niferoedd yma am leihau heb newid meddylfryd a diwydiant gan gymdeithas. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth. Oherwydd cyfyngiadau cyllidol mae pob penderfyniad yr ydym yn ei wneud yn ystyried yr hirdymor a chael y gwerth gorau o'r adnoddau sydd ar gael.*

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?
*Eto, mae'r Bartneriaeth yn ddibynnol ar gydweithrediad gyda chyrff cyhoeddus eraill yn ardal Gwynedd a Môn. Mae unrhyw benderfyniad yn cael eu gwneud mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill perthnasol.*

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

*Mae ein cais i Raglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddiogelu nodweddion cydraddoldeb, fel y mae'r gwaith gyda Choleg Llandrillo i gynnal hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain(BSL).*

*Cynhaliwyd pob cyfarfod y Bartneriaeth yn y Gymraeg. Mae pob cyhoeddiad a chyfathrebiad yn ddwyieithog (Cymraeg yn gyntaf).*

**8. Camau Nesaf**

*Parhau gyda'r blaenoriaethau a nodwyd yn Adran 5 yr Adroddiad.*

**Cwestiynau Ychwanegol**

- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud ers llynedd?

  *Amlinellir y cynnydd a wnaed ers llynedd o dan y pennawd* ***Beth sydd wedi'i gyflawni yn ystod 2025.***

- Beth sydd wedi ei wneud mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor i'r Bartneriaeth ychwanegu gwaith ataliol mewn cyswllt â throseddau rhywiol yn flaenoriaeth benodol?

  *Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod gwaith ataliol sy'n ymwneud â throseddau rhywiol yn flaenoriaeth allweddol. O ganlyniad, mae sawl cam gweithredu wedi'u cryfhau neu eu hehangu yn ystod y flwyddyn:*

  - *Cynhaliodd RASASC Cymru (Rape and Sexual Abuse Support Centre) sesiynau 'Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol' mewn ysgolion, gan ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth o drais rhywiol a chefnogi newid agwedd ac ymddygiad ymhlith pobl ifanc. Mae hyn yn rhan graidd o'r gwaith ataliol.*

- *Cynhaliwyd yr hyfforddiant ' Men at Work ' ar wrywdod, 'misogyny', rhywiaeth a thrais gwrywaidd, gan roi offer ymarferol a hyder i weithwyr proffesiynol i herio agweddau niweidiol a chefnogi ymyrraeth gynharach.*
- *Cyflwynwyd gweithdy amlasiantaeth arbenigol ar y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad, gan gefnogi ymarferwyr i nodi arwyddion rhybuddio ac atal y sefyllfa rhag gwaethygu. Roedd y digwyddiad wedi'i ordanysgrifio, gan dynnu sylw at y galw cryf am ddysgu ataliol yn y maes hwn.*

*Mae cyflawni ac ehangu gwaith ataliol yn parhau i fod yn heriol heb gyllid parhaus pwrpasol, gan fod llawer o'r gweithgaredd hwn yn dibynnu ar grantiau tymor byr neu gystadleuol.*

- Ers i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i ariannu Cynllun SchoolBeat Cymru ddod i ben, pa waith sydd yn cael ei wneud gan yr Heddlu gydag ysgolion?

*Er i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyn-gynllun SchoolBeat Cymru ddod i ben, mae Heddlu Gogledd Cymru (HGC) wedi ailgadarnhau ei ymrwymiad llawn i gefnogi ysgolion ledled y rhanbarth drwy fodel cryfach a mwy modern sydd bellach yn cael ei adnabod fel Gwasanaeth Ysgolion Heddlu Gogledd Cymru.*

*Mae'r gwasanaeth yn cael ei gyllido'n llawn, ei gefnogi a'i staffio gan Heddlu Gogledd Cymru, gan sicrhau parhad o ddarpariaeth addysg ataliol o safon uchel, cefnogaeth ymyrraeth gynnar a gweithgarwch diogelu o fewn ysgolion.*

*Mae tîm o 16 Swyddog Heddlu Ysgolion (SPOs) bellach yn gweithio gyda ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Gogledd Cymru. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio gan ddau Sarsiant – un yn y Dwyrain ac un yn y Gorllewin, ynghyd â Rheolwr Gwasanaeth Ysgolion sifil a benodwyd ym mis Medi 2025, sy'n dod â phrofiad helaeth o'r sector addysg ac sy'n sicrhau cydlyniad cryf â Chwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau diogelu lleol.*

***Parhad o Waith yn yr Ysgolion***

*Mae Gwasanaeth Ysgolion HGC yn darparu:*

- *Gwersi sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gamddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein, camddefnyddio deallusrwydd artiffisial (AI), perthnasoedd iach, troseddu cyllyll, ecsbloetio ac themâu diogelu allweddol eraill.*
- *Gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion lleol, gan hyrwyddo ymddygiad parchus, diogelwch cymunedol a lles disgyblion.*
- *Cefnogaeth gyda digwyddiadau sy'n ymwneud ag ysgolion, gan gynnwys materion cyffuriau lefel isel, ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwrthdaro rhwng cyfoedion a niwed ar-lein – gan ddefnyddio dulliau adferol ac ymyrraeth gynnar.*

*Ers mis Medi 2025, mae'r SPOs wedi rheoli dros 200 o ddigwyddiadau ac wedi darparu cannoedd o sesiynau addysgol i ddisgyblion ledled y rhanbarth.*

***Ymateb i Risgiau sy'n Dod i'r Amlwg***

*Un o gryfderau allweddol y model newydd yw'r gallu i ymateb yn gyflym i faterion sy'n codi. Enghreifftiau diweddar yw:*

- *Digwyddiad Ymwybyddiaeth Ketamin yn Ysgol Uwchradd Caergybi, a gynhaliwyd yn dilyn deallusrwydd gan Uned Troseddu Difrifol a Threfnedig HGC, gyda chefnogaeth partneriaid amlasiantaethol. (*Roedd y digwyddiad hwn yn beilot, ac oherwydd yr ymateb cadarnhaol iawn a'r adborth rhagorol a gafwyd, bydd digwyddiadau yn cael eu trefnu ar gyfer ysgolion yng Ngwynedd hefyd.)
- *Cynnwys addysgol newydd ar gamddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial, a ddatblygwyd ar y cyd â Thîm Troseddu Seiber HGC a Phrifysgol Glyndŵr/Wrecsam, gan alluogi'r SPOs i ddarparu cyngor cyfoes ac arloesol i bobl ifanc.*

***Gwaith Partneriaeth Cryfach***

*Mae Heddlu Gogledd Cymru bellach yn gweithio'n agosach nag erioed gyda phartneriaid gan gynnwys y GIG, Awdurdodau Addysg Lleol, CAMHS, prifysgolion a gwasanaethau ieuenctid. Mae hyn yn sicrhau dull cynhwysfawr, cydweithredol o gefnogi pobl ifanc ac ysgolion.*

***Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol***

*Mae Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn archwilio comisiynu rhaglen* ***Theatr mewn Addysg ddwyieithog*** *sy'n canolbwyntio ar droseddu cyllyll a Llinellau Sirol. Nod y rhaglen arfaethedig yw dod â pherfformiad trawma-wybodus a gweithdai dilynol i bob ysgol uwchradd yng Ngogledd Cymru, gan helpu disgyblion i ddeall risg, ecsbloetio, gwneud penderfyniadau ac ystod o lwybrau ar gyfer adrodd pryderon.*

*Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fod wedi'i ymrwymo'n gadarn i ddiogelu, addysgu a chefnogi pobl ifanc ledled y rhanbarth. Mae'r Gwasanaeth Ysgolion HGC newydd yn cynnig dull modern, hyblyg ac ymatebol sy'n parhau ac yn gwella ar y gwaith hanfodol a ddarparwyd gynt o dan SchoolBeat Cymru.*

- Oes cynlluniau ychwanegol ar waith er mwyn ymateb i gam wybodaeth i sicrhau diogelwch cymunedol a chefnogaeth i gymunedau yn y cyfnod cyn etholiad y Senedd ym mis Mai?

*Nid oes unrhyw gynlluniau ychwanegol, penodol i'r etholiad, i ymateb i gamwybodaeth cyn etholiad y Senedd ym mis Mai. Fodd bynnag, mae dull parhaus y Bartneriaeth, fel y'i*

*hamlinellir drwy'r adroddiad, eisoes yn cynnwys cydweithio amlasiantaethol cryf, rhannu gwybodaeth yn rheolaidd a gweithio ar y cyd â'r Heddlu, gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid rhanbarthol, sy'n helpu i sicrhau cyfathrebu cywir a chynnal hyder o fewn cymunedau. Gan fod cyfnod yr etholiad ar y gorwel, bydd y Bartneriaeth yn parhau'n effro i'r amserlen ac yn barod i ymateb yn briodol i unrhyw gamwybodaeth neu faterion sy'n dod i'r amlwg drwy'r trefniadau amlasiantaethol sydd eisoes ar waith.*

- Pa dystiolaeth (data, tueddiadau ac adborth cymunedol) sydd i ddangos bod gweithgaredd y Bartneriaeth yn creu gwahaniaeth i gymunedau?
  *Daw tystiolaeth o effaith y Bartneriaeth o ddata chwarterol yr Heddlu, canlyniadau prosiectau a ariennir a'r dysgu sy'n cael ei greu drwy waith amlasiantaethol. Mae'r data rheolaidd a rennir gan yr Heddlu yn galluogi partneriaid i nodi materion yn gynnar ac ymateb ar y cyd, gan gefnogi ymyrraeth gynnar, gwaith atal a datrys problemau ar lefel leol. Er nad yw'r Bartneriaeth fel arfer yn derbyn adborth uniongyrchol gan gymunedau, mae'r adborth o brosiectau penodol a ariennir drwy'r Dyletswydd Trais Difrifol wedi bod yn gadarnhaol lle mae wedi'i gasglu, gyda nifer o fentrau'n parhau o ganlyniad, ac roedd ymgynghoriad y cyhoedd ar estyniad y PSPO ym Mangor yn dangos cefnogaeth gref gan y gymuned. Mae'r galw uchel am ddysgu proffesiynol, megis y gweithdy trais domestig a hunanladdiad a oedd yn llawn, hefyd yn adlewyrchu gwerth y gwaith hwn i weithwyr proffesiynol. Mae'r Bartneriaeth yn cyfrannu at waith ehangach fel uwchraddio camerâu CCTV drwy Gronfa Ffyniant Bro, er bod gwerthuso'r cynlluniau hyn yn cael ei gynnal gan yr asiantaethau arweiniol yn hytrach na'r Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn parhau i gydlynu gwaith amlasiantaethol, cyflwyno prosiectau lleol a chefnogi cymunedau drwy waith wedi'i dargedu, gan wneud cyfraniad ystyrlon at ddiogelwch cymunedol yng Ngwynedd.*

- Sut mae'r Bartneriaeth yn sicrhau atebolrwydd os nad yw'n cyrraedd ei dargedau?
  *Cynhelir atebolrwydd drwy drefniadau llywodraethu sefydledig y Bartneriaeth, sy'n cynnwys cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd ac adrodd chwarterol. Rhennir data troseddu a diweddariadau cynnydd ym mhob cyfarfod, gan alluogi partneriaid ac aelodau lleol i adolygu perfformiad, nodi lle nad yw targedau neu ddisgwyliadau'n cael eu cyflawni, a chytuno ar gamau gweithredu ar y cyd mewn ymateb. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn darparu diweddariadau chwarterol i 'Safer North Wales Board' rhanbarthol ac yn adrodd yn flynyddol i Bwyllgor Craffu'r Cyngor yn unol â'i rôl statudol, gan sicrhau goruchwyliaeth a her allanol. O fewn cyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, mae partneriaid yn gweithredu mewn diwylliant o drafodaeth agored a her adeiladol, gyda phob awdurdod cyfrifol yn parhau i fod yn atebol am ei gyfraniadau a'i gamau gweithredu ei hun. Wrth osod ac adolygu amcanion, mae'r Bartneriaeth yn anelu at ganolbwyntio ar dargedau realistig sy'n rhesymol ac o fewn rheolaeth partneriaid. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau partneriaeth hyn yn sicrhau, hyd yn oed pan nad yw targedau'n cael eu cyflawni'n llawn, bod atebolrwydd yn cael ei*

*gynnal drwy adrodd clir, gwneud penderfyniadau ar y cyd a chraffu parhaus ar lefelau lleol a rhanbarthol.*

- Beth yw'r risgiau i gyflawni? Sut mae'r Bartneriaeth yn ymateb i'r risgiau?
  *Mae nifer o ffactorau a all gyflwyno risgiau i'r ddarpariaeth. Mae llawer o brosiectau lleol yn dibynnu ar gyllid grant tymor byr neu gystadleuol, a all greu ansicrwydd a gwneud cynllunio hirdymor yn fwy anodd. Gall capasiti hefyd fod yn her, gan fod gwaith y Bartneriaeth ar draws Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei gydlynu ar hyn o bryd gan un aelod o staff gydag adnoddau cyfyngedig. Yn ogystal, mae'r ystod o waith y mae'r Bartneriaeth yn gyfrifol amdano yn golygu y gall risgiau newydd, materion troseddu sy'n esblygu a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg godi'n gyflym, a all roi mwy o alw ar y ddarpariaeth.*
  *Mae'r Bartneriaeth yn ymateb i'r risgiau hyn drwy gydweithio amlasiantaethol cryf a dealltwriaeth gyffredin o'r heriau lleol, sy'n galluogi partneriaid i nodi materion, cytuno ar gamau ac ymateb ar y cyd. Mae strwythurau rhanbarthol megis y Bwrdd 'Safer North Wales' a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth gydlynol ychwanegol.*

**Gwybodaeth Cefndir**

Y Ddyletswydd Trais Difrifol - Serious Violence Duty: statutory guidance for responsible authorities (Welsh version) <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/63beaf7ae90e0771b909161c/Final_Serious_Violence_Duty_Statutory_Guidance_-_December_2022__Welsh__.pdf>
Y Strategaeth Ranbarthol Trais Difrifol Dyletswydd Trais Difrifol | Office of the Police and Crime Commissioner North Wales <https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/dyletswydd-trais-difrifol>
Canllawiau ymgymryd â Domestic Homicide Review DHR-Statutory-Guidance-161206.pdf <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a80be88e5274a2e87dbb923/DHR-Statutory-Guidance-161206.pdf>
Canllawiau SUSR Llywodraeth Cymru Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol | LLYW.CYMRU
Llywodraeth Cymru: Cynllun cyflawni Atal Hunanladdiad Strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio: cynllun cyflawni 2025 i 2028 | LLYW.CYMRU a Strategaeth Dealltwriaeth: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio | LLYW.CYMRU

**Atodiadau**

*Cynllun 2025-26 y Bartneriaeth.*
*Strategaeth y Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel 2025-28*

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd & Môn

Gwynedd & Anglesey Community Safety Partnership

**<u>Cynllun Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn 2025-26</u>**

<u>Cefndir</u>

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut orau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r gofyn i gael partneriaeth o'r fath mewn lle ar lefel leol yn rhan o'r gyfraith, sef Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth tân ac achub a'r bwrdd iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 am nifer o feysydd, gan gynnwys – lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol.

Bydd ein cynllun yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Fwy Diogel, sef:

1. Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2. Mynd i'r afael â throseddau treisgar
3. Mynd i'r afael â throseddau trefniadol difrifol
4. Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

## Rhaglen waith 2025-26

| # | Gweithred | Allbwn | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen | Blaenoriaeth Strategol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Cwrdd â'n cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol (DTD) newydd – **mae trais difrifol bellach yn flaenoriaeth statudol benodol i PDC.** Mae strategaeth ranbarthol wedi'i datblygu ar gyfer Gogledd Cymru.<br><br>Fel y llynedd, byddwn yn cydlynu gwariant lleol o Arian DTD y Swyddfa Gartref ar sawl ymyriad ataliol yn Ynys Môn a Gwynedd:<br>• Prosiect Ysgolion Gwynedd i rymuso eu hymateb i leihau ac atal trais difrifol a lleihau gwaharddiadau ysgolion.<br>• Cynyddu Darpariaeth Ieuenctid yng Ngwynedd dros yr Haf i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG).<br>• Prosiect RASASC *Peidiwch a Dwyn Fy Nyfodol* i godi ymwybyddiaeth am drais rhywiol a pherthnasoedd iach.<br>• Gwaith drwy Wasanaeth Ieuenctid Ynys Môn i leihau troseddau cyllyll drwy ddysgu ac addysg anffurfiol a sefydlu caffi ieuenctid yn Amlwch fel cymorth wedi'i dargedu.<br>• Gwerthuso Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar Ynys Môn i archwilio profiadau carfan benodol o bobl ifanc i ganfod a yw'r trefniadau presennol yn ddigonol.<br>• Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus benodol gyda *Crimestoppers* yn dilyn pryderon difrifol am y cysylltiad rhwng siopau Vape a chamfanteisio ar blant. | Yn seiliedig ar 4 blaenoriaeth, parhau i ymateb i'r Strategaeth Ranbarthol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024<br><br>Achos busnes wedi'i gyflwyno i'r OPCC - Mehefin 2025<br><br>Achos busnes wedi'i gymeradwyo gan yr OPCC - Gorffennaf 2025<br><br>Prosiectau i'w cwblhau a'u gwerthuso erbyn mis Mawrth 2026 | Mae cyfrifoldebau statudol o dan y Dyletswydd yn cael eu bodloni'n lleol<br><br>Mae camau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth yn cael eu cyflawni a'u hadolygu<br><br>DTD wedi'i weithredu i atal a lleihau trais difrifol ledled y rhanbarth<br><br>Ymyriadau lleol yn canolbwyntio ar atal a gyflwynwyd yn lleol trwy gyllid DTD i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais difrifol | PDC / grŵp tasg a gorffen i gydlynu gwariant lleol / Bwrdd Llywio Rhanbarthol DTD | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **2** | Byddwn yn sicrhau y bydd cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal Adolygiadau Dynladdiad Domestig (*DHR*) yn cael eu cwblhau'n briodol. Ers y lansiad ar 1af o Hydref 2024, bydd unrhyw adolygiadau newydd a gomisiynir o dan y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (*ADUS*). | Paneli adolygu, Cadeiryddion ac Awduron yn cael eu comisiynu ar gyfer yr adolygiadau, ymgysylltu ag asiantaethau lleol yn ôl yr angen | Mae'r cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal adolygiadau *DHRs* wedi'u cwblhau'n briodol | PDC / Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae hyn yn golygu sicrhau bod paneli adolygu, cadeiryddion ac awduron priodol yn cael eu comisiynu, a bod adroddiadau adolygu terfynol yn cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Swyddfa Gartref (Llywodraeth Cymru ar gyfer ADUS) cyn eu cyhoeddi. | Ymgymryd â'r DHR, monitro cynnydd a dysgu, a chyflwyno i'r Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cymru | Cynlluniau gweithredu ar waith i ymateb i argymhellion - gwersi a ddysgwyd i wella gwasanaethau yn y dyfodol a diogelu dioddefwyr | | | |
| **3** | **<u>Trais yn erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)</u>**<br><br>Cynyddu ymwybyddiaeth o adrodd cam-drin domestig a mynediad at wasanaethau a diogelwch i ddioddefwyr<br><br>Cynyddu ymwybyddiaeth o Ymyrraeth Gan Wylwyr, perthnasoedd iach ac atal<br><br>Dyrannu adnoddau diogelwch a ariennir drwy'r Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru<br><br>Datblygu a threialu deunyddiau i gynnal Digwyddiadau Dysgu Adolygiadau Marwolaethau Domestig (*DHR*) ar gyfer ein staff yn seiliedig ar yr argymhellion o adolygiadau blaenorol | Hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, Clare's Law, a Gorwel yn barhaus<br><br>Codi ymwybyddiaeth barhaus o themâu sy'n deillio o ddysgu DHR, gan gynnwys – pobl hŷn fel dioddefwyr, cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg, cam-drin teuluol, gwledigrwydd a hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig<br><br>Nodi ymgyrch flynyddol y Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd<br><br>Trefnu sesiynau hyfforddi i staff fel Ymyrraeth Bystander, *Men at Work*, Digwyddiadau Dysgu DHR a hyrwyddo hyfforddiant Cymorth i Ferched Cymru | Mae proffil cam-drin domestig, y sefyllfa yn lleol, a'r cymorth sydd ar gael yn cael ei godi<br><br>Gwell dealltwriaeth o ymyrraeth gynnar<br><br>Dioddefwyr risg uchel wedi'u darparu gyda chaledu targed | PDC a phartneriaid perthnasol | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **4** | Monitro cynnydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu - Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Deall darlun cyfredol o'r cynnydd<br><br>Cydweithio â'r Swyddog Datblygu Hyfforddiant Rhanbarthol ac adrannau hyfforddi perthnasol i fonitro a gwella cynnydd | Gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau Lleol o drais domestig i alluogi cyfeirio effeithiol at wasanaethau cymorth<br><br>Mae gofynion statudol ar gyfer Gofyn a Gweithredu yn cael eu bodloni | Adrannau hyfforddi yn y ddwy sir<br><br>Swyddog hyfforddi rhanbarthol | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **5** | Datblygu Siarter Diogelwch Menywod yn y Nos ar gyfer economi nos Gogledd Cymru, i annog busnesau i | Datblygu deunyddiau siarter a hyrwyddo | Gwahodd busnesau Gogledd Cymru i gymryd safiad dim goddefgarwch ar aflonyddu ar fenywod | PDC mewn cydweithrediad â Chyngor | Drwy gydol 2025/26 | **Blaenoriaeth 1.3 a 2.2 Strategaeth** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ymrwymo a galluogi newid systemig ar gyfer blaenoriaethu diogelwch menywod | Ymgysylltu â busnesau lleol a digwyddiad lansio | Newid cadarnhaol i brofiadau menywod yn y nos ledled Gogledd Cymru | Bwrdeistref Sirol Wrecsam | | **Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **6** | Cyflawni ar y Dyletswydd Atal statudol – mae hyn yn cael ei oruchwylio gan y PDC<br><br>Diweddaru ein trefniadau yn ôl yr angen ar y cyd â Chynghorydd Rhanbarthol y Swyddfa Gartref<br><br>Datblygu a gweithredu pecyn hyfforddi wyneb yn wyneb pwrpasol ar gyfer staff<br><br>Gweithredu yn dilyn y cais llwyddiannus i'r Gronfa *Atal Radicaleiddio* yn Ynys Môn – cynnal sesiynau hyfforddiant i'r rhai yn y 3ydd sector sydd yn cefnogi pobl ifanc a phobl bregus | Diweddaru Cynllun Atal rhanbarthol i adlewyrchu'r risg gyfredol<br><br>Ymateb i'r Broses Sicrwydd flynyddol gyda'r Swyddfa Gartref – cwblhau hunanasesiad ac ymateb i argymhellion<br><br>Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi a pholisi llogi lleoliad<br><br>Parhau fel aelodau rhagweithiol o'r Grŵp Cyflawni Atal Rhanbarthol | Cyfrannu at Gynllun Gweithredu Bwrdd CONTEST rhanbarthol<br><br>Cyfrannu at ganlyniadau'r Swyddfa Gartref Atal i leihau radicaleiddio<br><br>Gwella ymwybyddiaeth drwy'r ddau awdurdod lleol o egwyddorion y Dyletswydd Atal a sut i wneud atgyfeiriadau<br><br>Ymyrraeth gynnar i unigolion sy'n agored i radicaleiddio | PDC / Adrannau perthnasol Awdurdodau Lleol/Grŵp Cyflawni Atal Rhanbarthol | Drwy gydol 2025/26 | **Cynllun Atal y Swyddfa Gartref**<br><br>**Bwrdd Cystadleuaet h Rhanbarthol**<br><br>**Blaenoriaeth 4.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **7** | **<u>Targedu ardaloedd ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) problematig:</u>**<br>drwy ein pwerau o fewn Deddf YGG, Troseddu a Phlismona 2014 – drwy orfodi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) presennol ac ymgymryd ag Adolygiadau Achosion YGG<br><br>Dulliau datrys problemau aml-asiantaeth o unrhyw faterion wrth iddynt godi<br><br>Ymgynghoriad ar ymestyn GDMC Bangor sydd yn dod i ben ym mis Tachwedd 2025<br><br>Cael mynediad at gyllid penodol h.y. ar gyfer teledu cylch cyfyng ychwanegol/gwella goleuo | Monitro gorfodi i ddeall effaith GDMC<br><br>Ardaloedd problemus wedi'u nodi drwy ddata'r Heddlu ac unrhyw bryderon a ddygwyd i'n sylw<br><br>Ymgynghori â'r cyhoedd a phartneriaid perthnasol<br><br>Ceisiadau ar sail tystiolaeth yn cael eu cyflwyno pan mae cyfleoedd yn codi | Problemau YGG penodol wedi'u targedu<br><br>Dioddefwyr wedi'u rhoi wrth wraidd ymatebion i YGG parhaus<br><br>Gostyngiad yn YGG | PDC / Heddlu / cyrff perthnasol Deddf YGG 2014 | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 1.1 a 4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **8** | Nodi Troseddau Trefnedig Difrifol (*Serious Organised Crime/SOC*) sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau Trais Difrifol gysylltiedig, â gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb effeithiol i fygythiadau o'r fath | Grŵp SOC Rhanbarthol ar waith ar gyfer Gwynedd a Môn –i gyflwyno Strategaeth 4P a nodi lleoliadau, unigolion a grwpiau agored i niwed | Atal gweithrediad troseddwyr difrifol a threfnus yng Ngwynedd ac Ynys Môn | PDC / Grŵp SOC Rhanbarthol | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Lleihau achosion o drais difrifol sy'n gysylltiedig â llinellau sirol a'r farchnad gyffuriau | | | |
| **9** | Asiantaethau sy'n cymryd dull partneriaeth ar y cyd ar gyfer gweithredu'r fenter *Clear Hold Build* ym Mangor i gyflawni a chynnal gostyngiadau mewn SOC â throseddau cysylltiedig yn yr ardal | *Cyfnod 'clear'* wedi'i weithredu gan HGC.<br><br>Gweithdy amlasiantaeth i ddatblygu Cynllun 4P – Mehefin 2025<br><br>*Cyfnodau 'Hold' /* 'Build' i'w gweithredu gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach<br><br>Dull a arweinir gan y gymuned i nodi atebion tymor hir | Lleihau troseddu, ofn troseddu, adfywio ac adnewyddu ym Mangor<br><br>Mae ymateb lleol i SOC yn gynaliadwy ac yn symud y tu hwnt i dactegau gorfodi confensiynol | PDC / Heddlu Gogledd Cymru (HGC) / Grwpiau Gweithio CHB | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **10** | Treialu a gweithredu pecyn hyfforddi SOC pwrpasol ar gyfer partneriaid, gan gynnwys staff awdurdod lleol ar draws adrannau a thu hwnt | Datblygu pecyn hyfforddi – C2<br><br>Peilot gyda rheolwyr/arweinwyr tîm – Ch2<br><br>Trefnu a chyflwyno sesiynau ar gyfer 150+ o aelodau staff i ddechrau gyda chyflwyniad ehangach yn bosibl – C3 + Ch4 | Codi ymwybyddiaeth o droseddau cyfundrefnol difrifol: beth i edrych allan amdano, pa rôl y mae ein partneriaid yn ei chwarae a sut y gallwn ni i gyd wneud gwahaniaeth<br><br>Cydlynu ac ymgysylltu rhagweithiol gan bartneriaid i amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiad SOC | PDC / HGC | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| **11** | Gweithredoedd i atal hunanladdiad ac hunan niwed, yn cynnwys:<br>• Gweithredu yn unol a'r Cynllun Gogledd Cymru ac adrodd ar hyn ar sail cynlluniau unigol i'r ddwy Sir<br>• Aelodau parhaol o'r Fforwm Rhanbarthol<br>• Mynychu a chyfrannu i'r is-grwpiau i ymateb i faterion penodol | Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi eleni<br><br>Fforwm yn cyfarfod yn chwarterol | Atal drwy ymateb amlasiantaethol<br><br>Sicrhau cymunedau gwybodus a thosturiol, sydd wedi eu grymuso drwy wybodaeth ac ymwybyddiaeth<br><br>Cymorth a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion<br><br>Ymatebion amserol i hunanladdiadau a cymorth tosturiol ar gael i bawb yr effeithir arnynt | PDC / Fforwm Rhanbarthol | Drwy gydol 2025-26 | **Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2028**<br><br>**Blaenoriaeth 4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Cyflawni Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol newydd Gogledd Cymru 2025-28 sydd â'r nodau canlynol:<br>• Hyrwyddo dull diogel a synhwyrol o yfed alcohol<br>• Diogelu teuluoedd a chymunedau ehangach rhag effeithiau negyddol alcohol<br>• Lleihau effaith niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol<br>• Cynhyrchu perthnasoedd gwaith cadarn a llwybrau cyfeirio rhwng darparwyr gwasanaeth | Strategaeth wedi'i hadnewyddu wedi'i chyhoeddi ym mis Mehefin 2025<br><br>Grŵp Cyflawni i gwrdd yn chwarterol | Anogir perthynas fwy diogel ac iachach ag alcohol trwy ddull cydweithredol, sy'n seiliedig ar bartneriaeth<br><br>Lleihau effeithiau niweidiol yfed alcohol ar draws Gogledd Cymru<br><br>Gwella iechyd y cyhoedd | Fforwm Atal a Lleihau Niwed Rhanbarthol / APB | Drwy gydol 2025-26 | **Blaenoriaeth 1.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel**<br><br>**Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru** |
| 13 | Cyflwyno'r Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal *(BCA/Area Planning Board APB*) | Datblygwyd Cynllun Blynyddol 2025-26 yn seiliedig ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru<br><br>Yn cael ei fonitro gan Weithredaeth yr APB ac mae diweddariadau'n cael eu darparu i'r PDC | Mae niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau<br><br>Mae iechyd a lles unigolion a chymunedau yn cael eu gwella<br><br>Amgylchedd mwy cefnogol a chynhwysol i'r rhai yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau | APB | Drwy gydol 2025-26 | **Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru** |
| 14 | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i gyflwyno'r rhaglen cyfeirio ieuenctid *Phoenix* i fynd i'r afael ag YGG / problemau ymddgiadol / hunan-barch isel | Parhau i gyflwyno'r rhaglen ymyrraeth yn y rhanbarth<br><br>Pobl ifanc yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd, rhyngweithio fel rhan o dîm a darganfod talentau | Pobl ifanc yn cael eu haddysgu am bwysigrwydd diogelwch tân a chanlyniadau tanau bwriadol a galwadau ffug<br><br>Mwy o hyder a sgiliau rhyngbersonol i bobl ifanc<br><br>Gostyngiad mewn tanau/YG<br><br>Gostyngiad yn nifer y troseddwyr ailadroddus | GTAGC | Drwy gydol 2025-26. | **Blaenoriaeth 1 yn Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

**<u>Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel</u>**

**<u>2025-28</u>**

DRAFT

## Gweledigaeth a Phwrpas:

*"Sicrhau bod Gogledd Cymru yn lle diogel a chynhwysol i fyw, gweithio a mynd, ac yn teimlo felly."*

Pwrpas Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel yw cydweithio i gyflawni'r weledigaeth hon, drwy atal a mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn ar draws y rhanbarth. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein blaenoriaethau am y pedair blynedd nesaf.

## Nodau ac Amcanion Strategol:

| Blaenoriaeth Strategol | Amcanion |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1: Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** | 1.1 Gweithio mewn partneriaeth, gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, er mwyn adnabod a mynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y gogledd, gan fanteisio ar gyfleoedd am gyllid pan fo'n briodol, a sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn parhau i fod yn flaenoriaeth. |
| | 1.2 Dysgu a magu hyder cymunedau a busnesau o ran sut i roi gwybod am seiberdroseddau, sgamiau ac ymddygiad twyllodrus a diogelu eu hunain rhagddynt. |
| | 1.3 Sicrhau bod yr economi dydd a nos ar draws y gogledd yn lle diogel a chefnogol i atal a rhoi sylw i achosion o drais sy'n gysylltiedig ag alcohol/sylweddau, gan ganolbwyntio ar y dioddefwyr a'r rheiny sy'n cyflawni'r drosedd. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 2: Mynd i'r afael â Thrais Difrifol** | 2.1 Parhau i ymateb fel rhanbarth i'r Ddyletswydd Trais Difrifol a goruchwylio'r gwaith o gyflawni Pedair Blaenoriaeth Gogledd Cymru Heb Drais |
| | 2.2 Cefnogi a Gwella gwaith atal ac ymyrraeth gynnar o safbwynt trais yn erbyn merched a genethod, cam-drin domestig a thrais rhywiol |
| | 2.3 Hyrwyddo dull diogelu cyd-destunol i weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n agored i gamfanteisio ac/neu gaethwasiaeth fodern |
| | 2.4 Adnabod a gweithredu gwelliannau a'r arferion gorau, ac arloesi fel partneriaeth o safbwynt trais difrifol |
| | 2.5 Cymryd camau ataliol yng ngogledd Cymru drwy ddeall risg, profiadau niweidiol a thrawma yn ystod plentyndod |
| **Blaenoriaeth 3: Mynd i'r afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol** | 3.1 Defnyddio’r tri grŵp Partneriaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol i gytuno ar unrhyw gamau tymor byr, canolig neu hirdymor a'u gweithredu i fynd i'r afael â'r bygythiad o'r troseddau hyn, fel y nodir ym Mhroffiliau Cymunedol Gogledd Cymru. |

| | |
|---|---|
| | 3.2 Goruchwylio dulliau “Clirio, Dal, Adeiladu” y Bartneriaeth ledled Gogledd Cymru, gan sicrhau bod yr holl bartneriaid perthnasol (statudol a'r trydydd sector) yn rhan o'r broses ar yr adegau priodol. |
| **Blaenoriaeth 4: Diogelu a chreu cymunedau cryf a chadw'r cyhoedd yn ddiogel.** | 4.1 Gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau partner i ddeall a mynd i'r afael ag effaith a nifer yr achosion o droseddau casineb a sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i roi'r hyder i bobl roi gwybod am droseddau fel hyn. |
| | 4.2 Meithrin perthynas gynaliadwy ac ystyrlon gyda chymunedau nas clywir yn aml i sicrhau eu bod yn teimlo’n hyderus i fynegi pryderon am droseddau a materion cymunedol a diogelwch ar y ffyrdd. |
| | 4.3 Canolbwyntio ar gryfhau dealltwriaeth a gallu rhanddeiliaid, i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dylanwadu gan naratif casineb eithafol, sydd yn bryder cenedlaethol a rhanbarthol. |
| | 4.4 Cefnogi a chyfrannu at ymgyrchoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â throseddu, materion cymunedol a diogelwch ar y ffyrdd i godi ymwybyddiaeth, magu hyder a lleihau'r ofn sydd gan bobl o droseddau. |

**Atal ac ymyrraeth gynnar:** Yn ogystal â mynd i'r afael â materion a phroblemau sy'n dod i'r amlwg yn seiliedig ar wybodaeth ranbarthol a lleol, bydd y bartneriaeth yn canolbwyntio'n fawr ar gymryd camau ataliol ym mhob maes blaenoriaeth, gan edrych ar sut y gellir defnyddio ymyrraeth gynnar a chychwynnol i atal pobl rhag troseddu neu gymryd rhan mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ac/neu gael eu herlid.

DRAFT

**Dogfennau dylanwadol a thystiolaeth**

Mae Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel wedi'i chreu yn defnyddio'r strategaethau a'r dystiolaeth ganlynol:

**Asesiad Strategol Gogledd Cymru ac Asesiad Anghenion Strategol Trais Difrifol**

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynhyrchu asesiadau strategol blynyddol, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, i adrodd ar fygythiad a risg meysydd sylweddol o drosedd, anhrefn a materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ogledd Cymru. Y nod yw rhoi'r wybodaeth orau i'r bobl hynny sy'n gwneud penderfyniadau strategol ac yn gosod blaenoriaethau.

**Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2025-2028**

Mae'r cynllun yn rhoi gweledigaeth i sicrhau bod cymunedau yn ddiogel, bod dioddefwyr a phobl ddiamddiffyn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, bod cyfraddau troseddu ac aildroseddu'n isel, a bod gan bobl hyder mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r meysydd hyn yn cael blaenoriaeth:

- Presenoldeb Plismona Cymdogaethau Lleol
- Cefnogi Dioddefwyr, Cymunedau a Busnesau
- System Cyfiawnder Troseddol Teg ac Effeithiol

**Strategaeth Gogledd Cymru Heb Drais**

Nod y strategaeth "Gogledd Cymru Heb Drais" yw creu rhanbarth lle mae trais yn cael ei leihau'n sylweddol a bod unigolion yn teimlo'n ddiogel a bod ganddynt bŵer. Mae'r strategaeth hon, sydd wedi'i seilio ar asesiad anghenion cynhwysfawr a'r Ddyletswydd Trais Difrifol, yn canolbwyntio ar atal a lleihau trais difrifol trwy ddull aml-asiantaeth. Mae'r strategaeth yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais rhywiol, camfanteisio, a chaethwasiaeth fodern yn effeithio arnynt.

**Proffiliau Cymunedol Gogledd Cymru**

Bwriad y proffiliau yw rhoi gwybodaeth i bartneriaethau aml-asiantaeth lleol, yn enwedig Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Awdurdodau Lleol a phartneriaid perthnasol eraill fel Addysg, Iechyd a Thai am y bygythiad o Droseddau Cyfundrefnol Difrifol a'u heffaith ar gymunedau


DRAFT

lleol. Mae tair dogfen unigol yn cael eu cynhyrchu pob blwyddyn ar gyfer Wrecsam a Sir y Fflint, Ynys Môn a Gwynedd a Chonwy a Sir Ddinbych.

**Strategaeth Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru (2024-27)**

Mae'r strategaeth yn cynnwys dull aml-asiantaeth i fynd i'r afael â bregusrwydd a chamfanteisio yng ngogledd Cymru, gan ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a Chaethwasiaeth Fodern.

**Cynlluniau cyflawni**

Mae blaenoriaethau ac amcanion y strategaeth hon yn darparu fframwaith ar gyfer monitro cynlluniau cyflawni lleol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC). Fodd bynnag, bydd y Partneriaethau hyn yn gyfrifol am gytuno ar eu camau gweithredu penodol eu hunain i ymateb i'r anghenion yn lleol, a bydd y PDC lleol yn dal i fod yn statudol gyfrifol am gyflawni adrannau perthnasol Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru:

- PDC Wrecsam
- PDC Sir y Fflint
- PDC Conwy a Sir Ddinbych
- PDC Ynys Môn a Gwynedd

Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried y cynlluniau canlynol o ran camau gweithredu penodol sy'n llywio ein blaenoriaethau a'n hamcanion:

- Cynlluniau Cydlyniant Cymunedol
- Cynlluniau partneriaeth pedair blaenoriaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol

**Llywodraethu a chynrychiolaeth**

Cyfeirir at drefniadau llywodraethu ac aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel yng nghylch gorchwyl y Bwrdd.

DRAFT

**Cyfathrebu**

Bydd Cadeirydd Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel yn mynd i gyfarfodydd chwarterol gyda chadeiryddion y byrddau partneriaeth strategol eraill (Diogelu, Contest, Cyfiawnder, Bregusrwydd a Chamfanteisio a'r Bwrdd Cynllunio Ardal), i gyfathrebu themâu allweddol a all fod yn rhai trawsbynciol ac osgoi dyblygu ac/neu weithio unigol.

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 19/03/2026 |
| **TEITL** | Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| **AWDUR** | Roland Thomas |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Craig ab Iago |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Craffwyd diweddariad ar raglen waith a materion sydd angen sylw ym meysydd Gwastraff ac Ailgylchu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Medi 2024.

1.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu 2025-30 (ddrafft) cyn y bydd y Cabinet ystyried ei fabwysiadu. Bydd y strategaeth yn ceisio cynyddu'r lefel ailgylchu yn y sir i gwrdd â'r targed cenedlaethol o 70%, gan gynnwys ystyried camau fel capasiti biniau gwyrdd/amlder casglu ac edrych ar gamau gorfodaeth posib.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Gan fod set penodol o gwestiynau wedi'u cyflwyno gan y Pwyllgor, mae'r adroddiad hwn yn ymateb i'r cwestiynau hynny, a hynny yng nghyd-destun y cynnydd wnaed yn erbyn y rhaglen waith.

- Pa gynnydd a wnaed o ran y rhaglen waith?
- Cynnydd a heriau o ran cyrraedd targed ailgylchu 70% o wastraff
- Beth yw'r rhwystrau/cyfleoedd i gyflawni?
- Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gorwariant?
- Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i wireddu cynlluniau arbedion?
- Pa drefniadau sydd mewn lle i gyflymu'r broses o ddarparu biniau ailgylchu newydd? A oes ystyriaeth i sefydlu trefn i alluogi trigolion i nôl cyfarpar o safleoedd y Cyngor?
- Beth yw'r trefniadau o ran cyfarpar wedi malu? Ai'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu neu'r Tîm Ardal Ni sydd yn ymateb i achosion o gyfarpar wedi malu a thrigolion ddim yn eu casglu?
- Oes cyfyngiad ar y niferoedd o focsys newydd all unigolion eu harchebu mewn cyfnod penodol o amser?
- Pa fath o fesurau gorfodaeth sydd yn derbyn ystyriaeth? Sut bwriedir sicrhau tegwch wrth weithredu trefniadau gorfodaeth?
- Pa ffactorau sydd yn cael eu hystyried wrth edrych ar addasu amlder casglu?
- Beth yw'r risgiau allweddol sydd yn wynebu'r Cyngor wrth geisio cyfarch y targed o ailgylchu 70% o wastraff? Pa risgiau sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor?
- Beth yw'r diweddaraf o ran y peilot defnyddio bagiau hesian yn hytrach na'r Cartgylchu? Oes ystyriaeth yn cael ei roi i gynnal y peilot mewn ardaloedd mwy gwledig o'r Sir?

## 3. Cefndir / Cyd-destun

### 3.1 Pa gynnydd a wnaed o ran y rhaglen waith?

3.1.1 Mae'r adran hon yn darparu diweddariad ar y rhaglen waith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ar 12 Medi 2024.

3.1.2 Fel rhan o'r newidiadau i strwythur uwch-reolaethol corfforaethol y Cyngor yn 2022, penderfynodd y Cabinet y dylid trosglwyddo cyfrifoldeb am gasglu a thrin gwastraff ac ailgylchu o'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol i'r Adran Amgylchedd.

3.1.3 Trosglwyddwyd y Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu i'r Adran Amgylchedd yn ffurfiol ym mis Hydref 2022, gyda chyfrifoldeb llawn am y gyllideb yn trosglwyddo yn 2023. Adnabuwyd pedair prif flaenoriaeth ar gyfer sylw:

- Gwella gofal cwsmer ac ymdrin ag ymholiadau/cwynion,
- Mynd i'r afael â lefelau salwch uchel,
- Cyrraedd targed ailgylchu cenedlaethol o 70%,
- Rheolaeth o'r gorwariant.

3.1.4 Ym mis Ionawr 2023, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn amlinellu cynlluniau'r Adran i barhau i drawsnewid a thrawsffurfio'r gwasanaethau, gan ymateb i'r pedair blaenoriaeth uchod. Cyflwynir yr adran hon ochr yn ochr â'r rhaglen waith dan sylw. Mae'r rhaglen waith, ynghyd â sylwadau perthnasol, wedi'i chynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

3.1.5 Nid yw'n briodol darparu canran o'r gwaith sydd wedi'i gwblhau o'i gymharu â'r hyn sydd wedi'i wireddu'n rhannol, gan nad yw'r gwahanol elfennau'n gymaradwy. Serch hynny, mae'n galonogol bod y rhan fwyaf o'r gwaith eisoes ar waith. Dylid cofio nad digwyddiad un-tro yw'r rhaglen waith, ond proses barhaus sy'n cymryd amser i'w gwblhau.

3.1.6 Mae'r rhaglen waith ar gyfer y cyfnod nesaf ar hyn o bryd yn cael ei datblygu.

### 3.2 G1: Adolygu trefniadau gweithio casglwyr gwastraff ac ailgylchu

3.2.1 Mae strwythur gweithredol ardaloedd y De (Meirionnydd a Dwyfor) a'r Gogledd (Arfon) bellach wedi'i sefydlu ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r system 'in-cab' Bartec yn weithredol ar gyfer casgliadau ailgylchu a gwastraff gweddilliol, ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at wella trefniadaeth a rheolaeth y swyddfa gefn. Mae'r system yn galluogi'r Adran i gynyddu effeithlonrwydd drwy addasu cylchdeithiau yn ddynamig yn unol ag anghenion gweithredol o ddydd i ddydd.

3.2.2 Mae uwchraddio'r system camerâu ar y cerbydau casglu hefyd wedi gwella gwelededd o waith y criwiau yn y maes, gan gryfhau iechyd a diogelwch a gwella'r gallu i ymateb i gwynion. Mae'r criwiau'n adrodd materion megis biniau heb eu gosod allan neu finiau sy'n rhy llawn, ac os bydd cwsmer yn cysylltu, cyfeirir yr alwad yn syth at y depo lle gellir gwirio'r wybodaeth ar y system yn syth a datrys y mater ar unwaith.

3.2.3 Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ehangu defnydd o'r system Bartec i gynnwys casgliadau gwastraff masnachol, gwastraff gardd, clytiau ac i gefnogi'r broses o ddosbarthu biniau. Yn ogystal, mae gwaith cydweithredol yn parhau i sicrhau integreiddio llawn rhwng system Bartec a system rheolaeth cwsmer y Cyngor (Ffos), gan gryfhau llif gwybodaeth a gwella ymateb i gwsmeriaid.


## 3.3 G2: Adolygu trefniadau casglu ailgylchu gan gynnwys cynnydd disgwyliedig lefelau ailgylchu i'r dyfodol

3.3.1 Er mai Gwynedd oedd un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu cylch casglu gwastraff gweddilliol pob tair wythnos, ystyrir bellach fod capasiti wythnosol presennol y bin gwyrdd yn rhy fawr. O'i gymharu â gweddill awdurdodau Cymru, mae maint y bin gweddilliol wythnosol yn uchel; dim ond tri awdurdod — Caerffili, Abertawe a Wrecsam — sydd ar hyn o bryd â chynhwysedd bin gweddilliol uwch na Gwynedd.

3.3.2 Mae'r infograffeg isod yn dangos bod deunyddiau ailgylchu yn cael eu rhoi yn y bin gwyrdd, ac ymhlith swyddogion ailgylchu ceir y farn fod y bin bellach yn gweithredu fel "sgip" i nifer o aelwydydd.




3.3.3 Yn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth, gofynnwyd i drigolion pa mor llawn oedd eu bin gweddilliol ar ddiwedd y cyfnod tair wythnos. Fel mae'r graff isod yn ei ddangos, o'r 1,245 o ymatebion, nododd 62% fod eu bin tua ¾ llawn neu lai, ond nododd 15% nad oeddent yn gallu ymdopi â'r capasiti presennol.




3.3.4 Pan ofynnwyd yn ystod yr ymgynghoriad a oedd trigolion yn fodlon derbyn casgliadau llai aml, mynegodd 59% eu gwrthwynebiad i unrhyw leihad yn yr amlder. Serch hynny, nodwyd hynny gan tua hanner o'r bobl a ddywedodd bod eu bin yn llawn ar ddiwrnod casglu. O ran newid maint y bin, dim ond 30% o'r ymatebwyr nad oeddent yn fodlon ystyried y posibilrwydd hwn.

3.3.5 Mae cwmni allanol wedi'i gomisiynu drwy WRAP Cymru i gynnal asesiad cychwynnol o amlder casgliadau, gan gynnwys dadansoddi capasiti wythnosol a'r effaith bosibl ar adnoddau a chyfraddau ailgylchu. Mae canlyniadau'r adolygiad hwn ar hyn o bryd yn cael eu hasesu.

3.3.6 Rydym wedi dechrau treialu'r defnydd o sachau hesian ar gyfer deunyddiau ailgylchu. Hyd yma, treialwyd mewn tua 1,500 o gartrefi ar draws tair cylchdaith yn Arfon, er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd mewn gwahanol gyd-destunau. Roedd y lleoliadau'n cynnwys Llanberis a Nant Peris, rhannau o ganol Caernarfon, Waunfawr a rhan o Bontnewydd.

3.3.7 Darparodd WRAP Cymru gymorth i gaffael y sachau ac i sefydlu trefniadau monitro. Dewiswyd treialu sachau oherwydd eu capasiti uwch, eu hyblygrwydd, a'r gost sylweddol is o'u prynu a'u dosbarthu o gymharu â bocsys ailgylchu.

3.3.8 Prif ganfyddiad y treial cychwynnol oedd cynnydd cymedrol yn y gyfradd cyfranogi mewn ailgylchu. Cofnodwyd y lefel uchaf o foddhad â'r sachau ymhlith preswylwyr fflatiau a thai teras. O'r ymatebion i'r arolwg, roedd 78% o'r cyfranogwyr yn fodlon defnyddio sachau ar gyfer deunyddiau ychwanegol.


3.3.9 Prif negeseuon yr ymatebion oedd yr angen i wella dyluniad y sachau, mynd i'r afael â'r canfyddiad eu bod yn dueddol o gael eu colli mewn tywydd gwyntog, a deall dylanwad maint y bin gweddilliol ar berfformiad ailgylchu. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Wastraff a gynhaliwyd ddiwedd 2025 (gweler paragraff 3.12), gofynnwyd cwestiwn penodol ynghylch defnyddio sachau ar gyfer deunyddiau penodol. O'r ymatebion, roedd 35% yn fodlon defnyddio sachau i ailgylchu cardfwrdd a phapur, a 32% yn fodlon eu defnyddio ar gyfer plastigion a chaniau.

3.3.10 Mae dros hanner awdurdodau lleol Cymru yn defnyddio sachau neu fagiau ar gyfer ailgylchu, gyda chyfradd ailgylchu gyfartalog o 69.7% ymhlith yr awdurdodau hynny, o'i gymharu â chyfartaledd o 67.5% ymhlith yr awdurdodau sy'n defnyddio system trolibocs. Fodd bynnag, mae'r sampl yn rhy fach i alluogi casgliadau pendant, ac mae ffactorau eraill — megis maint y bin gweddilliol ac amlder casgliadau — yn gallu dylanwadu ar y canlyniadau.

3.3.11 Bwriedir cynnal cynllun peilot pellach mewn ardaloedd gwahanol o Wynedd yn ddiweddarach eleni.

### 3.4 G3: Adolygu trefn gwynion.

3.4.1 Drwy fuddsoddi mewn technoleg ac adleoli'r cyfrifoldeb am gwynion casglu i'r depos, mae nifer y cwynion wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r Adran yn monitro'r dangosydd hwn yn rheolaidd, ac mae'n parhau i fod yn un o'r prif fesurau perfformiad a drafodir yn y cyfarfodydd herio perfformiad. Mae'r graff isod yn dangos y gostyngiad parhaus dros y cyfnod hwn. Er bod y duedd bellach yn ymddangos fel pe bai wedi sefydlogi, mae'r lefel bresennol yn cyfateb i gwynion sy'n cynrychioli tua 0.2% o'r gwaith; hynny yw, o'r tua 19,000 o gynwysyddion a gesglir bob dydd ledled y Sir, derbynnir tua 40 o gwynion.




3.4.2 Y disgwyliad yw y bydd integreiddio llawn y system Bartec yn cyfrannu at ostyngiad pellach yn y nifer o gwynion. Fodd bynnag, y prif elfen o ran gwella ansawdd y data yw'r gallu i adnabod yn glir pa gwynion sy'n gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd a pha rai nad ydynt — er enghraifft, achosion lle nad oedd y bin wedi'i roi allan ar y diwrnod casglu.

**3.5 G4: Data sydd o ddefnydd ac ar gael yn rheolaidd – gwaith wedi ei gwblhau (gweler atodiad 1).**

**3.6 G5: Newid ymddygiadau i leihau lefel gwastraff gweddilliol ac uchafu ailgylchu**

3.6.1 Mae gwaith y swyddogion ailgylchu yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y cyhoedd. Er hyn, dylid nodi mai pedwar swyddog yn unig sy'n gweithredu ar draws Gwynedd, felly mae eu gwaith yn rhan ehangach o ymdrech newid ymddygiad er mwyn cyfrannu at gyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Fodd bynnag, cydnabyddir mae angen datblygu rhaglen mwy effeithiol i ymgysylltu gyda'r cyhoedd a sicrhau newid sylweddol yn ymddygiad trigolion. Mae'r swyddogion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr drwy gefnogi unigolion i ailgylchu'n gywir ac wrth ddatrys problemau sy'n ymwneud â biniau mewn cartrefi neu ardaloedd penodol; serch hynny, mae angen symud i ffwrdd o'r syniad mai "datrys problemau" yw eu prif rôl.


3.6.2 Dylid nodi hefyd fod y swyddogion eisoes yn trefnu nifer o weithgareddau rhagweithiol, megis yr ymgyrch bwyd yn Harlech, cyfrannu at wythnos las y myfyrwyr, hyrwyddo wythnos "Mwy nag Ailgylchu", a chydweithio i wella delwedd biniau mewn ardaloedd yng nghanol Bangor.

3.6.3 Mae'r ymgynghoriad ar y Strategaeth wedi tynnu sylw at sawl maes posibl i'w datblygu. Un o'r sgoriau isaf a gofnodwyd yn y rhan sy'n ymwneud ag ymgysylltu oedd y ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth drwy lythyru traddodiadol. Gyda chefnogaeth WRAP Cymru, bydd llythyrau'n cael eu hanfon at holl gartrefi Gwynedd yn fuan, gyda gwybodaeth ymarferol am y casgliadau ailgylchu. Ar yr un pryd, nododd 80% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio ap Gwynedd neu wefan y Cyngor, gan amlygu cyfle clir i gryfhau ein dulliau cyfathrebu digidol — yn enwedig drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.

3.6.4 Rydym yn bwriadu cydweithio ag elusen er mwyn sicrhau bod ein negeseuon am ailgylchu yn cyrraedd mwy o ysgolion ar draws y Sir.

3.6.5 Mae’r wybodaeth a gesglir gan y criwiau casglu drwy Bartec hefyd yn ein galluogi i nodi cartrefi sydd angen cymorth ychwanegol — megis y rhai sy’n cynhyrchu llawer iawn o wastraff neu nad ydynt yn ailgylchu’n gywir.

3.6.6 Ein nod yw annog a pherswadio trigolion i wella eu harferion ailgylchu, ond mae’n rhaid cydnabod bod terfyn i effeithiolrwydd dulliau gwirfoddol. Mewn rhai achosion, bydd angen ystyried defnyddio dulliau gorfodi. Mae gan y Cyngor bwerau gorfodi, megis mewn perthynas â chadw biniau ar y stryd neu gamddefnyddio biniau. Yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnwyd am farn y cyhoedd ar ddefnyddio gorfodaeth, a nodir y canlyniadau isod. Mae sgôr o 1 yn dynodi cytuno’n gryf â’r datganiad.




3.6.7 O ran canolfannau ailgylchu, rydym wedi dechrau agor bagiau duon ac ehangu’r gwaith o ailddefnyddio. Er bod hyn wedi arwain at rywfaint o anfodlonrwydd ar y cychwyn, credir bod egluro’r rhesymeg y tu ôl i’r newid wedi bod yn allweddol i sicrhau derbyniad ehangach. Mae’r treialon cynnar wedi dangos gostyngiad yn y gwastraff gweddilliol. Rydym hefyd yn cydweithio ag elusennau lleol i ailddefnyddio dodrefn, teganau plant, ac mae paent ail-law ar gael i unrhyw un sydd ei angen. Yn ogystal, mae cais wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid i uwchraddio a gwella canolfannau ailgylchu Dolgellau a Phwllheli.

### 3.7 G6: Cynllun asedau gwastraff

3.7.1 Un o’r chwe amcan allweddol yn y Strategaeth yw sicrhau isadeiledd sy’n addas ar gyfer y dyfodol. Yn unol â hyn, mae’r Adran yn bwriadu buddsoddi yn ailddatblygu safleoedd trosglwyddo a phrosesu gwastraff Harlech a Chaernarfon, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â chynnydd yn nifer a mathau’r deunyddiau a dderbynnir yn y blynyddoedd i ddod. Mae’r gwaith hwn hefyd yn hanfodol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion trwyddedu cyfoes, yn ogystal â chynnal ansawdd y deunyddiau ailgylchu fel bod modd sicrhau’r incwm gorau posibl.

3.7.2 Rydym wedi bod yn gweithio gyda WRAP Cymru a Phartneriaethau Lleol ers peth amser, ac mae cynlluniau cychwynnol bellach wedi’u derbyn. Fodd bynnag, mae’n bwysig cydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol er mwyn gwireddu’r cynlluniau hyn yn llawn.


3.7.3 Dangosodd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Wastraff fod 76% o drigolion yn ystyried bod prosesu gwastraff o fewn Gwynedd yn bwysig.

## 3.8 G7: Rheoli gorwariant [yn bennaf yn deillio o salwch a goramser y gweithlu]

3.8.1 Roedd sicrhau rheolaeth dros y gorwariant yn un o'r prif flaenoriaethau pan drosglwyddwyd y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu i'r Adran Amgylchedd. Ar y pryd, roedd y gorwariant yn amrywio rhwng £1.5 miliwn a £1.7 miliwn. Mae adroddiad Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2025, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 20 Ionawr 2026, yn nodi mai'r amcan ar gyfer 2025/26 yw sefyllfa o orwariant o £617k. Nodwyd yn yr adroddiad fod "y gwaith o ailstrwythuro a chyflwyno newidiadau i'r maes yn parhau gyda nifer o gamau ynghlwm â'r broses, gyda rhai o'r camau yn llithro i 2026/27 ac felly nifer o gynlluniau arbedion yn llithro o ganlyniad i'r heriau ailstrwythuro".

3.8.2 Yn ogystal â rheoli lefel y gorwariant, mae cynlluniau arbedion gwerth £1.45 miliwn wedi'u hadnabod ar gyfer Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu fel rhan o Strategaeth Arbedion y Cyngor. Mae'r rhestr lawn o'r arbedion hyn wedi'i chynnwys yn Atodiad 2, ynghyd â sylwadau ar eu statws presennol.

3.8.3 Un o brif ofynion y briff gwreiddiol oedd sicrhau gwell rheolaeth dros lefelau salwch. Ar y pryd, roedd salwch nid yn unig yn cael effaith negyddol ar forâl y gweithlu, ond hefyd yn creu costau ychwanegol i'r gwasanaeth drwy orfod talu am weithwyr llanw neu oramser i gwblhau cylchdeithiau. Ar adegau, roedd lefelau salwch mor uchel fel nad oedd modd sicrhau cerbyd ar gyfer pob cylchdaith. Ers cyflwyno Bartec, nid yw salwch wedi arwain at ganslo cylchdeithiau. Mae'r graff isod yn dangos y lleihad yn lefelau salwch yn 2025–26. Er cymhariaeth, collodd gweithwyr y gwasanaeth gwastraff 1.6 diwrnod o waith y mis oherwydd salwch, o'i gymharu â chyfartaledd o 1 diwrnod y mis ar draws gwasanaethau eraill y Cyngor.




3.8.4 Drwy drafodaethau gyda'r gweithlu a'r undebau, cytunwyd i barhau â'r trefniadau tasg a gorffen. Fodd bynnag, yn wahanol i'r drefn flaenorol lle'r oedd y trefniant yn cael ei ystyried ar sail unigol, mae'r pwyslais bellach ar drefniant tasg a gorffen cyfunol. Credir bod y newid hwn wedi cyfrannu at well awyrgylch tîm ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn lefelau goramser.

## 3.9 G8: Sicrhau bod rheolaeth gadarn ar gytundebau gyda phartïon eraill sy'n derbyn ein gwastraff

3.9.1 Rydym wedi adolygu nifer o gytundebau ac wedi gallu sicrhau arbedion o ganlyniad i'r gwaith hwn. Fodd bynnag, gan nad yw'r asedau presennol yn addas i'r diben, mae'n anodd cyflawni pob agwedd o'r gwaith yn fewnol ar hyn o bryd. Gyda'r buddsoddiad priodol, bydd cyfleoedd gwell i brosesu mwy o'n deunyddiau ein hunain yn y dyfodol.

3.9.2 Mae sicrhau ffynhonnell gynaliadwy o incwm drwy wastraff masnachol a thai gwyliau yn hanfodol i'r gwasanaeth, ac mae wedi'i nodi fel un o'r prif risgiau ar gofrestr risg yr Adran. Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reolau Ailgylchu yn y Gweithle, gan osod gofynion cyfreithiol ar fusnesau i wahanu gwastraff yn yr un modd ag aelwydydd. O ganlyniad, bu'n ofynnol i Gyngor Gwynedd, fel gweithredwr casglu, gasglu deunyddiau gwastraff ac ailgylchu o fusnesau ar wahân am y tro cyntaf. Mae'n rhaid cydnabod bod gweithredu'r drefn hon ar gyfer gwastraff masnachol wedi bod yn her sylweddol ac wedi amlygu gwendidau sylfaenol yn ein systemau a'n trefniadau busnes.

3.9.3 Mae trefniadau hanesyddol y Gwasanaeth Gwastraff Masnachol wedi arwain at raniad gweithredol rhwng yr elfen gasglu a'r elfen sy'n gyfrifol am osod cytundebau. Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd o'r gwasanaeth, daethpwyd i'r casgliad bod y trefniadau presennol yn creu rhwystrau gweithredol, yn arwain at densiwn, ac yn cyfyngu ar effeithlonrwydd

3.9.4 Er bod system newydd wedi'i phrynu i wella effeithlonrwydd y swyddfa gefn, mae'r trefniadau presennol o ran dosbarthiad gwaith rhwng y ddau wasanaeth yn parhau i greu anawsterau, diffyg atebolrwydd ac ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau rheolaethol. O ganlyniad, nid yw'r Adran yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleoedd yn y farchnad ac mae'n colli potensial i gynyddu ffynonellau incwm

3.9.5 Bydd ailstrwythuro'r gwasanaeth yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â nifer o'r rhwystrau hyn ac i gryfhau'r trefniadau gweithredol a busnes

### 3.10 G9: Cynllun Cyfathrebu - Hwn wedi ei gynllunio ar ôl mabwysiadu'r Strategaeth Wastraff.

3.10.1 Tra bod rhaglen waith ar gyfer y tîm swyddogion ailgylchu sy'n ymwneud gyda gwaith cyfathrebu a newid ymddygiad, mae'r maes yma wedi ei adnabod fel blaenoriaeth yn y Strategaeth Wastraff ddrafft. Bwriedir felly ddatblygu a rhoi cynllun cyfathrebu newydd ar waith a fydd yn ymateb i'r canfyddiadau o'r arolwg cyhoeddus ac yn plethu gyda phrif amcanion y Strategaeth.

### 3.11 G10: Trefniadau Iechyd a Diogelwch

3.11.1 Mae dau swyddog penodol yn gyfrifol am oruchwylio materion iechyd a diogelwch o fewn y gwasanaethau gwastraff. Mae'r ddamwain drist a ddigwyddodd yng Nghonwy y llynedd wedi tynnu sylw at natur wirioneddol y peryglon sy'n gysylltiedig â'r diwydiant. Rydym wedi buddsoddi mewn camerâu, sy'n arf pwysig ar gyfer monitro diogelwch y criwiau, ac yn ddiweddar rydym hefyd wedi dechrau cynnal asesiadau risg ar bob cylchdaith.

3.11.2 Nid yw'n glir o fewn y strwythur presennol pwy sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am iechyd a diogelwch y gwasanaeth, ac o ganlyniad mae ansicrwydd ynghylch atebolrwydd.


3.11.3 Mae'r diffyg cydnawsedd rhwng atebolrwydd ffurfiol a gweithrediad ymarferol yn peri risg sefydliadol, gan danseilio'r gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i faterion iechyd a diogelwch. Bydd ailstrwythuro'r gwasanaeth yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chryfhau'r trefniadau llywodraethu.

### 3.12 G11: Sefydlu strategaeth gadarn ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu.


3.12.1 Cynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Wastraff ddrafft rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 52 o gwestiynau a oedd yn casglu barn a gwybodaeth gan y cyhoedd. Derbyniwyd cyfanswm o 1,266 o ymatebion. Er fod y gwaith o dadansoddi yn parhau, mae'r isod yn cyflwyno'r prif ganlyniadau a'r prif ganfyddiadau cychwynnol.

3.12.2 Cafwyd cynrychiolaeth o ymatebion o bob rhan o Wynedd (Atodiad 3), ac roedd y proffil oedran yn eithaf cynrychioliadol o'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, nodwyd tuedd i dan-adrodd gan ymatebwyr o dan 57 oed, a gor-adrodd gan drigolion 57 oed a hŷn. Derbyniwyd cyfran uwch o ymatebion gan ferched o gymharu â'r boblogaeth ehangach yng Ngwynedd. Cafwyd ymateb gan 29 o aelodau etholedig, er bod posibilrwydd bod rhai aelodau hefyd wedi ymateb fel aelodau o'r cyhoedd. Roedd lefel yr ymateb gan fusnesau yn arbennig o isel.


3.12.3 Roedd chwe amcan allweddol wedi'u nodi yn y Strategaeth, a gofynnwyd i'r cyhoedd raddio eu pwysigrwydd ar raddfa o 1 i 5, gyda 5 yn dynodi pwysigrwydd uchel. Yr amcan a gafodd y gefnogaeth uchaf oedd sicrhau gwasanaeth o ansawdd, gyda lefelau cefnogaeth ar gyfer yr holl amcanion fel a ganlyn.





3.12.4 Gofynnwyd i ymatebwyr ba mor bwysig oedd lleihau gwastraff, a nododd 87% eu bod yn ystyried hyn yn bwysig. Mae'r graff isod yn dangos y ffactorau a fyddai'n eu helpu i wneud hynny, gyda 44% yn nodi nad oeddent yn gwybod sut i leihau eu gwastraff ymhellach. Y rhwystrau mwyaf a nodwyd oedd y nifer o ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu, ynghyd â lefelau uchel o ddeunydd pecynnu "upstream".





3.12.5 Gofynnwyd i ymatebwyr bwy y dylai fod yn gyfrifol am gyrraedd y targed ailgylchu cenedlaethol. Mewn cwestiwn opsiwn ie/na, nododd 50% mai cyfrifoldeb pob un ohonom yng Ngwynedd yw hyn. O'r ymatebion rhydd, nododd 36 o ymatebwyr mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau cyrhaeddiad y targed. Yn ogystal, mynegodd 84% eu barn ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cyflawni'r targed ailgylchu.





3.12.6 Er bod 90% o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn ailgylchu popeth y gallant, mae hyn yn anghyson â'r data sy'n dangos cynnwys y bin gweddilliol. Yn ogystal, nododd 70% eu bod yn ailgylchu eu gwastraff bwyd, er bod tystiolaeth yn dangos bod 27% o gynnwys y bin gwyrdd yn dal i fod yn fwyd (gweler 3.3.7). Mae hyn yn awgrymu bylchau sylweddol rhwng ymddygiad a chanfyddiad, ac yn tynnu sylw at yr angen am fwy o eglurder, cyfathrebu a chefnogaeth i drigolion




3.12.7 Cafwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch y gwasanaeth yn ein canolfannau ailgylchu, gan gynnwys mewn perthynas â'r system archebu slotiau ar gyfer mynediad, a ystyriwyd yn weithredol ac yn effeithiol gan nifer o ymatebwyr.




3.12.8 Er ein bod wedi canolbwyntio ar gwynion ynghylch casgliadau ailgylchu a chasgliadau domestig ym mharagraff 3.4.1, mae'r graff isod yn dangos lefelau uchel o foddhad â'r gwasanaethau casglu: 91% ar gyfer casgliadau ailgylchu a gweddilliol, a 87% ar gyfer casgliadau gwastraff gardd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwasanaethau craidd yn cael eu gwerthfawrogi'n eang gan drigolion, ond bod lle amlwg i wella mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth.




3.12.9 Byddwn yn symud ymlaen yn awr i ddadansoddi'r canlyniadau yn fanylach ac i ymgorffori'r syniadau perthnasol yn y Strategaeth, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad ar gyfer mabwysiadu'n ffurfiol cyn yr haf.

### 3.13 G12: Adolygu trefniadau presennol y gwasanaeth dosbarthu biniau, bocsys a sachau i drigolion

3.13.1 Mae'r gwasanaeth danfon biniau dan bwysau sylweddol oherwydd y galw digynsail am gyfarpar. Yn 2023–24, derbyniwyd 35,855 o geisiadau am wahanol fathau o eitemau a chyfarpar (heb gynnwys cyfarpar masnachol). Er bod y ffocws yn y blynyddoedd cynnar ar ôl trosglwyddo'r maes Gwastraff wedi bod ar wella'r gwasanaeth casglu, mae'n amlwg bellach bod angen rhoi sylw penodol i'r gwasanaeth danfon biniau. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r mater hwn yn adlewyrchu ar y gweithlu, ond yn hytrach ar y lefel reolaethol.

3.13.2 Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda swyddogion, ac mae nifer o syniadau wedi'u cynnig i wella'r ddarpariaeth. Ymhlith yr opsiynau y byddwn yn eu hystyried yn ystod y flwyddyn mae:


- Adolygu trefniadau llif gwaith — sicrhau bod prosesau archebu, paratoi a danfon yn fwy effeithlon ac yn llai dibynnol ar gamau â llaw drwy ddefnyddio Bartec / Gwefan.
- Gwell cydgysylltu â'r criwiau casglu — defnyddio data Bartec i nodi anghenion cyfarpar yn rhagweithiol ac i leihau oedi di-angen.
- Optimeiddio stoc a storio — sicrhau bod digon o gyfarpar ar gael ar bob adeg a lleihau oedi sy'n deillio o brinder stoc.
- Adolygu adnoddau staffio — asesu a yw'r capasiti presennol yn ddigonol i ymdopi â'r galw cynyddol ac a oes angen ailfodelu'r tîm.
- Gwella cyfathrebu â thrigolion — darparu gwybodaeth gliriach am amserlenni danfon a statws ceisiadau, gan leihau'r angen am ymholiadau dilynol.
- Archwilio'r posibilrwydd o gasglu cyfarpar o safleoedd lleol — asesu a ellir galluogi trigolion i gasglu cyfarpar o siopau Gwynedd neu ganolfannau ailgylchu, ar yr amod bod system stoc gadarn ar waith yn gyntaf.
- Adolygu'r defnydd o Cartgylchu — penderfynu a ddylid dod â'r defnydd o'r bocsys Cartgylchu i ben yn raddol a hyrwyddo defnydd ehangach o sachau hesian ar gyfer ailgylchu.
- Rheoli'r galw am finiau a chyfarpar — ystyried opsiynau i reoli'r galw cynyddol, gan fod archebu biniau yn rhy hawdd ar hyn o bryd. Er nad yw'r Cyngor yn dymuno cyflwyno ffi ar hyn o bryd, efallai y bydd angen ystyried hyn yn y dyfodol os na fydd y galw'n lleihau. Dylid nodi bod 10 o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn codi tâl am adnewyddu bin gweddilliol, gyda ffioedd yn amrywio o £5 i £60.

**3.14 G13: Carbon isel.**

3.14.1 Mae gan y gwasanaeth tua 100 o gerbydau casglu a gwaredu gwastraff. Ar hyn o bryd nid ydym wedi gallu buddsoddi llawer mewn cerbydau casglu gwastraff trydan. Fodd bynnag, rydem yn parhau i anelu at ddatgarboneiddio ein fflyd erbyn 2030, ond bydd angen inni fel Adran gydweithio yn agos efo'r Gwasanaeth Fflyd i edrych ar y dechnoleg a'r cynllun busnes yn fanwl, oherwydd ar hyn o bryd mae cerbydau trydan tua dwbl pris cerbyd disel ac mae diffyg capasiti yn yr isadeiledd lleol i wefru y mathau hyn o gerbydau.

**3.15 Cynnydd a heriau o ran cyrraedd targed ailgylchu 70% o wastraff**

3.15.1 Mae perfformiad ailgylchu Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024–25 yn 65.3%. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi llithro i lawr y safleoedd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru (gweler y graff isod). Llynedd gwelodd 20 o'r 22 awdurdod gynnydd yn eu cyfraddau ailgylchu, gan gynnwys Gwynedd, a llwyddodd 12 awdurdod lleol i gyrraedd y targed statudol o 70%. Mae methu â chyrraedd y targed cenedlaethol yn cynyddu'r risg o gosbau ariannol.




3.15.2 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi rhybudd ynghylch cywirdeb y data sy'n ymwneud ag ailgylchu pren/coed. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, amcangyfrifir y bydd y gyfradd ailgylchu genedlaethol ar gyfer Cymru yn 2024–25 o leiaf 1% yn is na'r ffigurau a gyhoeddwyd. Ar lefel awdurdod lleol, gall yr effaith amrywio'n sylweddol: nid yw rhai awdurdodau'n cael eu heffeithio o gwbl, tra gallai'r gyfradd ar gyfer eraill ostwng rhwng 1% a 5%. Er ein bod yn hyderus fod Cyngor Gwynedd wedi cyfrifo ailgylchu pren yn gywir, mae'r sefyllfa'n codi cwestiynau ynghylch tegwch a chysondeb cymariaethau rhwng awdurdodau.

3.15.3 Mae'r Strategaeth Ailgylchu yn gam cyntaf pwysig ar y daith tuag at gyrraedd y targed o 70%, ac mae'r ddogfen yn nodi'r cynlluniau a'r uchelgais i wireddu hynny.

3.15.4 Mae cyllid ychwanegol wedi dod ar gael drwy EPR, a byddwn yn paratoi achos busnes i ddefnyddio'r cyllid hwn nid yn unig ar gyfer datblygu cynlluniau cyfalaf ond hefyd i gefnogi cynlluniau gweithredol a fydd yn ein galluogi i gyrraedd y targed o 70%.

3.15.5 Mae'r tabl isod yn darparu bras-ddarlun o'r math o gamau a allai sicrhau cynnydd pellach yn y gyfradd ailgylchu. Ymarferiad desg yw hwn ar hyn o bryd, ac mae angen gwaith manylach a chraffu cyn y gellir cadarnhau'r manylion yn derfynol:

| **Cyfradd Ailgylchu Cyngor Gwynedd 2024-25** | **65.30%** | |
|---|---|---|
| Casglu Gwastraff yn llai aml neu leihau capasiti y bin | 2.11% | Arbediad tymor-hir |
| Cynyddu ailgylchu 12% o fusnesau (tebyg i ffigyrau domestig) | 0.42% | Arbediad tymor-hir |
| Cynyddu cyfradd bwyd i 25% | 0.35% | Arbedion tymor-hir |
| Ailgylchu o leiaf 50% o'n pren a carpedi | 1.50% | Cost |
| Ailgylchu o leiaf 50% o'r gwastraff stryd | 0.90% | Cost |
| Agor Bagiau duon yn ein canolfannau ailgylchu | 0.64% | Cost-niwtral |
| Casglu plastigion hyblyg (flex) | 0.56% | Cost |
| Arall (tecstilau / ailddefnyddio) | 0.16% | Cost-niwtral |
| **Cyfanswm** | **71.94%** | |

## 8. Camau Nesaf

Derbyn yr adroddiad

## Atodiadau

Atodiad 1: Rhaglen Waith Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu
Atodiad 2: Rhestr Arbedion Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu
Atodiad 3: Cynrychiolaeth Ofodol

## Atodiad 1: Rhaglen Waith Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu


| Prif thema | Enghreifftiau o'r is benawdau | Sylwadau |
|---|---|---|
| **G1 Adolygu trefniadau gweithio casglwyr gwastraff/ ailgylchu** | Adolygiad cynhwysfawr o'r holl gylchdeithiau (gwaith parhaus) | Mae hwn yn waith parhaus, ac mae'r system Bartec yn ein galluogi i addasu'r cylchdeithiau yn ddyddiol er mwyn sicrhau cydbwysedd gwell yn y rowndiau. Yn aml, daw'r newidiadau o fewn y gweithlu ei hun, ond mae'r Arweinwyr Tîm bellach yn meddu ar ddata llawer mwy cadarn i sicrhau bod y cylchdeithiau'n fwy cytbwys. |
| | Adolygiad o drefniadau / oriau gweithio | Newidiwyd y trefniadau Tasg a Gorffen o fodel unigol fesul cerbyd i ddull mwy cydweithredol ar lefel grŵp. Trwy Bartec, mae'n bosibl rhannu'r gwaith pan fo un criw yn cael trafferth neu pan fo adroddiadau o fethu casgliadau. Un agwedd nad ydym wedi'i hystyried eto yw'r posibilrwydd o leihau nifer y diwrnodau gwaith drwy ymestyn yr oriau, ond ar hyn o bryd mae'r shifftiau presennol yn ymddangos yn effeithiol ac nid oes llawer o alw am newid. |
| | Datrysiad i wyliau cronnus gweithwyr | Nid ydym wedi derbyn datrysiad ar y mater hwn eto. |
| | Cyflwyno technoleg "in cab" ar gyfer cerbydau casglu gwastraff | Mae'r system Bartec bellach yn weithredol ar gerbydau ailgylchu a cherbydau domestig, gyda'r bwriad o'i chyflwyno ar gyfer gwastraff gardd, gwastraff masnachol a chasgliadau cewynnau yn y dyfodol agos. |
| | Uwchraddio camerâu ar holl gerbydau gwaith | Mae'r camerâu ar y cerbydau wedi'u huwchraddio. |
| | Gwerthuso holl staff y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu | Nid ydym wedi dechrau ar drefn ffurfiol ar gyfer hyn eto |
| | Sefydlu strwythur De / Gogledd - yn ymarferol ac mewn egwyddor | Mae'r trefniadau gweithredol wedi'u sefydlu ac wedi'u hintegreiddio'n llawn bellach, gyda dwy brif ddepo yn Harlech a Chaernarfon, is-ddepo yn Pwllheli, a depo llai yn Nolgellau. |
| **G2 Adolygu trefniadau casglu ailgylchu gan gynnwys cynnydd disgwyliedig lefelau ailgylchu i'r dyfodol** | Treialu trefn gasglu ailgylchu drwy sachau hessian mewn ardaloedd peilot | Peilot wedi ei gynnal |
| | Gwerthuso a chreu achos busnes i edrych ar amlder casglu gwastraff gweddilliol | Adroddiad cychwynol wedi ei dderbyn yn unig |
| **G3 Adolygu trefn gwynion** | Penodi swyddogion sy'n agos at y gwasanaethau i ddelio efo cwynion. Cydweithio efo TG / Gofal Cwsmer i sicrhau gwelliant parhaus | Mae'r drefn yma wedi ei sefydlu - gweler rhan 3.4 o'r adroddiad. |
| **G4 Data sydd o ddefnydd ac ar gael yn rheolaidd** | Cyflwyno system Pontydd Bwyso newydd | Systemau newydd wedi eu pwrcasu ar gyfer y pontydd bwyso |
| | Sicrhau bod ein data yn amserol ac ein bod yn ei ddadansoddi er mwyn gweithredu yn fwy blaengar (gwaith parhaus) | Rydem yn gwella ein systemau yn gyffredinol a byddwn efo banc o ddata gwell yn y dyfodol. |
| **G5 Newid ymddygiadau i leihau lefel gwastraff gweddilliol ac uchafu ailgylchu** | Datblygu rhaglen benodol sy'n rhoi ffocws clir i godi ymwybyddiaeth / newid ymddygiad (gwaith parhaus) | Mae nifer o ymgyrchoedd penodol wedi'u cynnal, ond mae angen datblygu rhaglen fwy cynhwysfawr sy'n darparu ffocws clir ar godi ymwybyddiaeth ac annog newid ymddygiadol. |
| | Adolygiad cynhwysfawr o'n Canolfannau Ailgylchu | Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella'r canolfannau ailgylchu, ond y datblygiad mwyaf arwyddocaol yw'r dechrau ar agor bagiau du er mwyn lleihau'r swm o wastraff sy'n cael ei anfon i Barc Adfer. Mae hyn hefyd wedi galluogi creu lle a meithrin partneriaethau i gynyddu'r cyfleoedd i ailddefnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu. |
| **G6 Cynllun asedau gwastraff** | Datblygu canolfan prosesu a thrin addas i bwrpas yn Caergylchu | Gwaith yn parhau - gweler rhan 3.7 |
| | Datblygu canolfan prosesu a thrin addas i bwrpas yn Ffridd Rasus | Gweler uchod |
| **G7 Rheoli gorwariant [yn bennaf yn deillio o salwch a goramser y gweithlu]** | Oriau goramser a weithir (monitro parhaol) | Oriau goramser wedi gostwng yn sylweddol dros y dair blynedd diwethaf |
| | Lefelau salwch (monitro parhaol) | Lefelau salwch ymhlith y gweithlu wedi lleihau. |
| | Ffurfioli strwythur y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu | Rydym ar hyn o bryd yng nghanol proses o ailstrwythuro'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu (staff swyddfa). Bu oedi sylweddol yn y gwaith hwn wrth i ni ymgysylltu â'r undebau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg ac yn unol â'r trefniadau statudol. |
| **G8 Sicrhau bod rheolaeth gadarn ar gytundebau gyda phartïon eraill sy'n derbyn ein gwastraff** | Adolygu cytundebau 3ydd parti | Mae rhai cytundebau wedi'u hadolygu, ond mae hyn yn waith parhaus sy'n gofyn am fonitro a diwygio rheolaidd. |
| | Parc Adfer (gwaith parhaus) | Gwaith parhaus |
| | GwyriAD | Mae gwaith wedi dechrau i archwilio opsiynau ar gyfer trefniadau yn dilyn bod y cytundeb presennol yn dod i ben yn 2028. |
| | Adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaeth Gwastraff Masnachol | Gweler rhan 3.9 |
| **G9 Cynllun Cyfathrebu** | Strategaeth Cyfathrebu (yn dilyn mabwysiadu'r Strategaeth Wastraff) | Nid oes cynnydd ar y maes yma eto |
| **G10 Trefniadau Iechyd a Diogelwch** | Iechyd a Diogelwch (gwaith parhaus) | Hwn yn waith parhaus - gweler rhan 3.11 |
| **G11 Sefydlu strategaeth gadarn ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu.** | Llunio, ymgynghori a mabwysiadu Strategaeth Wastraff | Mae strategaeth ddrafft wedi'i llunio ac wedi bod drwy'r broses ymgynghori. Disgwylir mabwysiadu'r Strategaeth yn derfynol drwy'r trefniadau arferol yn ystod y gwanwyn sydd i ddod. |

| | | |
|---|---|---|
| **G12 Adolygu trefniadau presennol y gwasanaeth dosbarthu biniau, bocsys a sachau i drigolion** | Adolygu'r gwasanaeth Dosbarthu Biniau | Gweler rhan 3.13 |
| **G13 Sefydlu rhaglen waith ar gyfer amnewid cerbydau i rai carbon isel** | Paratoi adolygiad i ddatgarboneiddio'r fflyd | Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'n Hundod Fflyd, ond ar hyn o bryd nid yw'r isadeiledd yn ein depos yn gallu cefnogi trosglwyddo ein cerbydau casglu trwm i dechnoleg drydanol. Serch hynny, rydym yn symud ymlaen gyda'r gwaith o ddisodli ein faniau llai â cherbydau trydan. |

**Atodiad 2: Rhestr Arbedion Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu**

| Teitl | Arbediad | Statws |
|---|---|---|
| Rhesymoli trefniadau dosbarthu cynhwysion | £50K | Wedi ei gyflawni |
| Lleihau costau cynnal a chadw oherwydd difrod i gerbydau o 10% | £30K | Wedi ei gyflawni |
| Gwella effeithlonrwydd y defnydd o safleoedd trin/trosglwyddo gwastraff | £70K | Wedi ei gyflawni |
| Gwasanaeth Gwastraff a Busnes - Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol | £150K | Risgiau i'w gyflawni. Arbediad ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu a'r Uned Busnes |
| Cynyddu incwm o werthiant deunyddiau ailgylchu, yn enwedig wrth i wastraff masnachol gael ei gasglu ar wahân o 2023/24. | £150K | Wedi ei gyflawni |
| Adolygu Cytundebau Gwastraff | £100K | Wedi ei gyflawni |
| Ailstrwythuro Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu | £200K | Bu oediad ond ar drac i'w gyflawni |
| Caniatáu i rai mathau o gwmnïau masnachol ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu | £50K | Oediad - rydem wedi edrych os gallwn gyflawni yr arbediad drwy leihau gwastraff, ond byddwn yn mynd ati i edrych ar y cynllun yma yn fuan eto. |
| Gwasanaethau Gwastraff - Gwell rheolaeth ar ddyledion gan gwsmeriaid masnachol, Marchnata Gwasanaethau Masnachol - cynyddu incwm a Cynyddu incwm drwy gasglu Gwastraff Masnachol o lety gwyliau | £430K | Rhai risgiau i'w gyflawni |
| Arbediad hanesyddol oedd angen ei gyflawni: Lleihau niferoedd casgliadau gwastraff gardd o 25 i 22 y flwyddyn | £20K | Wedi ei gyflawni |
| Amlder casglu gwastraff gweddilliol | £200K | Angen ei graffu ymhellach |

## Atodiad 3: Cynrhychiolaeth Ofodol




Cynrychiolaeth ofodol yr ymatebwyr i'r arolwg gafodd ei hasesu drwy gymharu dosbarthiad gofodol arsylwedig yr ymatebwyr â dosbarthiad gofodol y boblogaeth cartrefi sylfaenol, gan ddefnyddio dadansoddiad grid. Cafodd cyfrifon cartrefi ac ymatebwyr eu cyfuno i grid, ac yna mapwyd a phrofwyd y gwahaniaethau cyfrannol gan ddefnyddio prawf chi-square goodness-of-fit. Defnyddir y prawf hwn i ddadansoddi data categoreiddiol er mwyn pennu a oes perthynas arwyddocaol rhwng newidynnau, neu a yw'r amleddau arsylwedig yn wahanol i'r amleddau disgwyliedig. Defnyddiwyd y prawf chi-square i wirio a oedd ymatebion yr arolwg wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal mewn modd tebyg i ddosbarthiad pob cartref, neu a oedd rhai lleoliadau wedi ymateb yn sylweddol fwy neu'n llai nag a ddisgwylid.

Gosodwyd y grid dros bob pwynt cyfeiriad CG a phob cyfeiriad ymateb i'r arolwg. Roedd gan rai sgwariau grid boblogaethau rhy isel i'w cynnwys yn yr dadansoddiad (wedi'u dangos mewn coch). O'r sgwariau grid a oedd yn weddill, dangosodd 27 (gwyrdd) nad oedd tuedd ofodol ystadegol arwyddocaol ($p > 0.05$), a dangosodd 7 (ambar) ychydig o duedd ofodol ystadegol arwyddocaol ($p \leq 0.05$). Yn gyffredinol, mae hyn yn dangos bod y sampl o ymatebwyr yn eang yn gynrychioliadol yn dda o ran daearyddiaeth y boblogaeth cartrefi, gyda rhywfaint o duedd mewn rhai ardaloedd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD** | **19 Mawrth 2026** |
| **TEITL** | **Llwybrau** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | **Sicrwydd o ran gweithrediad** |
| **AWDUR** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol, Adran Amgylchedd** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Craig Ab Iago** |



**1.0 Pam fod angen ei graffu?**

Craffwyd fersiwn drafft o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy 2022-29 cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu ar 22 Tachwedd 2022.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i warchod a chynnal y rhwydwaith. Prif gyfrifoldebau cynnal y Cyngor yw:

- Arwyddo hawliau tramwy lle maent yn gadael y briffordd
- Arwyneb y mwyafrif o hawliau tramwy
- Pontydd a strwythurau
- Rheoli tyfiant a chael gwared â rhwystrau

Cyflwynir cyfres o Ddatganiadau Gweithredu ar gyfer pob thema yn y Cynllun, sydd yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu adnoddau ac i baratoi rhaglenni gwaith manwl dros oes y Cynllun.

Byddai craffu'r rhaglen waith yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod camau yn cael eu cymryd i wella llwybrau cyhoeddus a bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau mynediad i bawb.

**2.0 Beth yn union sydd angen ei graffu?**

Mae'r isod yn ymateb i gwestiynau penodol sydd wedi eu cyflwyno gan y Pwyllgor Craffu:

**2.1 Sut ydych yn asesu cyflwr y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus?**

- Mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) yn ddarostyngedig i arolygon ysbeidiol sydd yn adlewyrchu lefel yr adnodd sydd ar gael i'r pwrpas yma. Rydym yn bwriadu adolygu'r Polisi Hawliau Tramwy Cyhoeddus(HTC) er mwyn i'r targed fod yn fwy realistig ac adlewyrchu'r lefel o adnodd sydd ar gael.

- Mae'r Llwybr Arfordir yn cael ei arolygu yn ei gyfanrwydd pob blwyddyn.
- Ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill (Aelodau Lleol, Cynghorau Cymuned ayyb).

**2.2 Y Rhaglen Waith**

Gellir ystyried yr isod fel prif weithgareddau y Tîm Llwybrau sydd yn ffurfio ei rhaglen waith:

- Torri tyfiant tymhorol
- Adnewyddu seilwaith (pontydd, waliau, gatiau, camfeydd, cylfats)
- Gosod seilwaith newydd (pontydd, waliau, gatiau, camfeydd, cylfats)
- Gweithredu cynllun arwyddo
- Ymateb i ymholiadau, cwynion a cheisiadau rhyddid gwybodaeth
- Ymdrin â holl faterion cyfreithiol y maes:
    - cynnal y map/cofnod swyddogol o holl tramwy cyhoeddus yn y Sir
    - ymdrin a ceisiadau am hawliadau, newidiadau a gwyriadau i'r rhwydwaith a'r map swyddogol sydd yn ddarostyngedig i brosesau cyfreithiol

**2.3 Sut mae barn defnyddwyr yn cael ei gymryd i ystyriaeth?**

Rydym yn ystyried adborth parhaus rhanddeiliad ac mae hyn yn bwydo i fewn i'r rhaglen waith a blaenoriaethau.

Rydym yn aelodau o Fforwm Mynediad Gogledd a De y Parc Cenedlaethol ac yn cydlynu a threfnu Fforwm Arfon a Dwyfor. Mae rhain yn cwrdd yn chwarterol i drafod materion yn gysylltiedig a'r rhwydwaith HTC. Mae'r Fforwm yn hwyluso craffu a mewnbwn trigolion a rhanddeiliaid allweddol. Rydym yn awyddus iawn fod y Fforwm yn gynhwysol ac adlewyrchu traws-doriad mor eang a phosib o'r gymuned ac yn ceisio cyflawni hyn drwy gweithgareddau ymestyn allan ac ymgyrchoedd recriwtio.

Rydym yn cydweithio yn agos gyda mudiadau megis Cymdeithas y Cerddwyr (Ramblers) Ymddiriedolaeth Cerdded, Seiclo a Olwyno (Sustrans), Cymdeithas Ceffylau Prydeinig ac eraill sydd yn cynrychioli diddordebau defnyddwyr.

**2.4 Beth a wneir i sicrhau mynediad i bawb?**

Mae gwella mynediad i bawb yn greiddiol a tanategu'r ymagwedd tuag ar rheoli'r rhwydwaith. Yn ymarferol mae hyn yn cynnwys amnewid camfeydd gyda gatiau ble mae hyn yn ymarferol bosib, gwella arwyneb llwybrau a cydymffurfio a'r safonau cyfredol.

**2.5 Sut mae'r gwaith yn cael ei gyllido?**

Mae'r gwaith yn gael ei gyllido drwy amryw o ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys

- Cyllideb craidd blynyddol o goffrau Cyngor Gwynedd
- Grantiau penodol ac amrywiol Llywodraeth Cymru sydd yn cynnwys
    - Grant Gwella Mynediad
    - Ar gyfer Llwybr yr Arfordir
- Grantiau penodol ac amrywiol oddi wrth Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Cronfa Ffyniant Bro)

Gweler **5.10** am ragor o fanylder.

**2.6 Heriau yn y maes**

**2.6.1 Cyffredinol**
Mae gwahanol agweddau o faterion yn ymwneud â HTC yn gallu fod yn sensitif a gyda phroffil uchel. Fel gyda rhan fwyaf o wasanaethau eraill y Cyngor mae adnodd ac argaeledd adnodd yn her barhaus.

Gan ystyried natur y maes gwaith, mae llawer o amser y tîm yn cael ei ymgymryd yn ymdrin â gohebiaeth, ymholiadau, cwynion a cheisiadau am wasanaeth o bob math, boed hynny yn ysgrifenedig neu ar lafar. Fel gyda nifer o wasanaethau eraill mae yna esiamplau ble mae nifer fach iawn o randdeiliaid yn cymryd rhan sylweddol o amser ac adnodd.

Mae heriau yn codi o safbwynt newid hinsawdd. Mae'r cynnydd yn achlysuron tywydd garw a stormydd yn cael effaith sylweddol ar y rhwydwaith. Mae gwaith a chostau sylweddol yn gysylltiedig â'r gwaith adfer yn dilyn digwyddiadau tywydd garw.

Mae sawl digwyddiad/hawliad wedi bod ar y safleoedd yma ac wedi cylchdroi rhwng gwahanol adrannau ag uned Yswiriant y Cyngor. e.e. problem yng Nghoed Orielton a Pharc y Borth gyda gwersylla heb ganiatâd.

Am nad oes presenoldeb ar y safleoedd, mae 'na gam ddefnyddio o dir cyhoeddus yn digwydd ar brydiau -ee pobl yn ymestyn eu gerddi, defnyddio safleoedd fel llefydd ar gyfer gweithgareddau gwrth gymdeithasol, creu llecynnau parcio, rhedeg busnesau ar dir y Cyngor heb ganiatâd.

**2.6.2 Diogelwch**
Llwybrau a thiroedd sydd heb gynnal a chadw ac arolygon rheolaidd yn mynd yn anniogel (er enghraifft, coed anniogel, tyfiant gormodol, arwynebau anwastad, difrod i arwynebau caled ac isadeiledd fel camfeydd, gatiau, pontydd a ffensys).

Cynnal a chadw rheolaidd yn lleihau'r risg o ddamweiniau ac atebolrwydd cyfreithiol, er enghraifft hawliadau yswiriant costus sydd yn mynd yn fwy niferus. Mae hyn yn ei dro yn golygu cynnydd mewn costau yswirio.

**2.6.3 Hygyrchedd**
Llwybrau aml-ddefnydd a thiroedd yn wasanaeth i gerddwyr, beicwyr, defnyddwyr cadeiriau olwyn a theuluoedd.

Heb gyllideb gynnal ddigonol, mae hygyrchedd i grwpiau llai symudol yn dirywio'n gyflym.

**2.6.4 Hirhoedledd / Parhad seilwaith**
Buddsoddiad cyfalaf mawr wedi'i wneud wrth greu'r llwybrau, yn cynnwys pontydd, twneli ac isadeiledd strwythurol sylweddol arall.
Angen cyllideb cynnal a cadw rhesymol i ddiogelu'r buddsoddiad ac ymestyn oes y seilwaith.

**2.6.5 Defnydd cymunedol a llesiant**
Llwybrau a mynediad i diroedd yn hybu iechyd corfforol a meddyliol, ac yn cynnig cyfleoedd teithio llesol.

Heb gynnal a chadw, mae'r defnydd yn lleihau, gan danseilio'r manteision cymdeithasol ac economaidd.

**2.6.6 Effaith amgylcheddol**
Fe sefydlwyd y Lonydd Glas yn wreiddiol nid yn unig fel llwybrau aml ddefnydd ond hefyd fel ecosystemau a chynefinoedd unigryw sydd wedi datblygu o fewn eu ffiniau. Mae'r tiroedd yn cyfrannu a chynnig cyfleoedd yn yr un modd.

Cynnal a chadw'n effeithiol yn helpu i reoli dŵr wyneb ac erydiad pridd ac yn sicrhau nad yw'r llwybrau a thiroedd yn niweidio ecosystemau lleol nac yn achosi llifogydd lleol.

**2.6.7 Gwerth am arian**
Cynnal a chadw rheolaidd yn rhatach na gorfod ailwampio neu ailadeiladu llwybr a tiroedd wedi iddo ddirywio'n sylweddol.

Cynnal a chadw yn lleihau risgiau iechyd a diogelwch a hawliadau cysylltiedig ag aelodau o'r cyhoedd yn cael niwed wrth ddefnyddio o'r adnoddau.

**2.7 Beth yw'r trefniadau/amserlen ar gyfer adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy?**
Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy presennol yn weithredol tan 2029.

Fe fydd gwaith yn cychwyn yn 2027 i adolygu hwn. Fe fydd y broses yn cynnwys:

- Adolygiad o'r ddogfen bresennol
- Cynnig gwelliannau
- Ymgynghori gyda rhanddeiliad
- Ymateb i'r adborth ac adlewyrchu hyn mewn drafft aeddfed
- Cyflwyno'r ddogfen er ystyriaeth gwleidyddol (Craffu a Cabinet)

**3.0 Cwestiynau Ychwanegol**

**3.1 Faint o geisiadau / cwynion sydd yn cael ei dderbyn gan y cyhoedd? Beth yw amserlen ymateb i'r ceisiadau hyn?**
Derbyniwyd 801 o ymholiadau drwy system FFOS y Cyngor yn ystod y cyfnod Ionawr-Rhagfyr 2025. Mae hyn yn cymharu efo 551 yn 2024. Mae'r Tîm yn gwneud pob ymdrech i ymateb i ymholiad mor amserol â phosib, ond mewn rhai amgylchiadau mae natur y cais yn golygu'r angen i ymweld â safle i gynnal arolwg cyn y gellir darparu ateb llawn.

**3.2 Sut ydych yn mesur pa mor hygyrch yw'r llwybrau a bod mynediad i bawb?**
Does dim proses na ffurf ymarferol o fesur hyn ond byddwn yn falch ystyried unrhyw gynigion neu gyngor. Mae adborth wrth rhanddeiliaid a arolygon swyddogion yn cyfrannu at hyn.

**3.3 A ydych yn gwneud gwaith gyda grwpiau penodol i gael eu mewnbwn er mwyn sicrhau mynediad i bawb?**
Gweler ateb i **2.3** uchod.

**3.4 A ydych yn cydweithio gydag unigolion a grwpiau sydd yn dymuno gwirfoddoli i gynnal a chadw'r llwybrau hyn? Oes cyfleoedd i ehangu'r gwaith gwirfoddoli a chydweithio gyda phartneriaid?**
Rydym yn cydweithio gyda tri grŵp gwirfoddol yn Meirionnydd (Cymdeithas y Cerddwyr), Arfon (Tîm Taclo Llwybrau) a Dwyfor (Grŵp Gwirfoddoli y Tirwedd Cenedlaethol Llŷn)

Rydym yn awyddus i ystyried cyfleoedd i ehangu y trefniadau yma. Mae angen ystyried be' sydd yn briodol a ymarferol o safbwynt diogelwch a rheoli lliniaru risgiau.

Rydym yn cydnabod fod llawer o waith da anffurfiol yn cael ei ymgymryd er mwyn cynnal mynediad a safon y rhwydwaith gyda defnyddwyr yn ymgymryd â gweithgareddau megis pigo sbwriel a 'snipio' tyfiant.

Rydym yn darparu grant blynyddol i Gynghorau Cymuned i dalu am waith torri tyfiant ar y rhwydwaith o fewn eu cymunedau.

**3.5 Pa mor aml gwneir gwaith cynnal a chadw? Beth yw'r polisi o ran cynnal a chadw?**
Mae hyn yn cael ei ymgymryd ar sail parhaus. Mae rhaglenni gwaith sydd yn cynnwys rhai tymhorol yn ogystal ag adweithio i ymholiadau ac adborth a dderbynnir gan randdeiliaid.

**3.6 O ystyried bod llwybrau cyhoeddus yn cael eu categoreiddio, sut mae'r categoreiddio hyn yn cael ei wneud?**
Fe wnaeth y Cynghorau Cymuned chwarae rhan blaenllaw a chreiddiol yn y broses categoreiddio.

Mae modd adolygu hyn ac rydym yn cydweithio gyda'r Cynghorau Cymuned gyda'r bwriad o adlewyrchu eu dymuniadau a dyheadau yn unol â'r criteria sydd wedi ei sefydlu yn y Polisi HTC.

**3.7 Pwy sydd yn gyfrifol am y llwybrau a sut all Cynghorau Cymuned a Thref adennill arian os ydynt yn gwario ar y llwybrau?**
Y Cyngor Sir sydd yn gyfrifol am gynnal a sicrhau fod y rhwydwaith HTC yn agored.

Mae rôl a chyfrifoldebau y Cyngor a thir-feddianwyr wedi ei amlygu yn **5.7.** Gyda hyn all ystyried y rhwydwaith HTC fel un sydd yn â chyfrifoldebau ar y cyd – rhwydwaith ***ni***...yn hytrach na unrhyw rhanddeiliad penodol ar ben ei hunain.

Mae'r HTC yn adnoddau cymunedol pwysig a mae modd i Gynghorau Cymuned, pe baent yn dymuno, mewn ymgysylltiad â'r Gwasanaeth, buddsoddi yn uniongyrchol yn gwella a/neu cynnal a chadw rhain pe baent yn dymuno. Mae esiamplau o hyn eisoes yn digwydd yng Ngwynedd.

**3.8 Oes cynlluniau ar waith i nodi categorïau'r llwybrau cyhoeddus ar Fap Gwynedd er eglurder i'r cyhoedd o ran pwy sydd yn gyfrifol am lwybrau penodol?**
Mae'r rhwydwaith HTC eisoes wedi ei cynnwys ar Fap Gwynedd sydd yn cynnwys y categorïau.

**3.9 Oes modd derbyn eglurder ar y cydweithio sydd yn digwydd rhwng y Cyngor a Chynghorau Cymuned a Thref parthed diffygion ar lwybrau – e.e. os oes giât wedi torri ar lwybr dan reolaeth Cyngor Cymuned, pa gorff sy'n gyfrifol am ariannu ei drwsio?**
Mae yna elfen o gyfrifoldeb ar y cyd sydd yn medru adlewyrchu ffactorau lleol, lleoliad, categori y HTC. Y cyngor gorau yw fod rhanddeiliaid yn cysylltu yn uniongyrchol gyda'r Tîm Llwybrau er mwyn trafod achosion, lleoliadau a sefyllfaoedd penodol.

**3.10 Pwy sydd gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn lle ar gyfer llwybrau cyhoeddus – y Cyngor a/neu Gynghorau Cymuned a Thref?**
Mae gan y Cyngor polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Yn aml fe fydd gan y tir feddiannwr bolisi o'r fath hefyd.

**4.0 Crynodeb a'r Materion Allweddol**

**4.1 Adnoddau i'w Trysori, Parchu, Gwarchod a Defnyddio**
Mae'r rhwydwaith HTC yng Ngwynedd yn un estynedig ac amrywiol sydd yn rhoi mynediad i rhai o ardaloedd arfordirol, gwledig a mynyddig gorau'r byd o fewn un Sir.

Mae yna HTC yn bob ardal o Wynedd sydd yn cynnig adnodd gwych ar gyfer gweithgareddau awyr agored sydd yn dda i llesiant ein trigolion o safbwynt iechyd meddyliol a chorfforol.

Mae'r rhwydwaith HTC hefyd yn cynnig cyfleoedd teithio, am resymau ddydd i ddydd, mewn dulliau yn hytrach na'r car sydd yn cefnogi nifer o uchelgeisiau a amcanion strategol i leihau effaith ar yr hinsawdd ac ar faterion ymarferol fel tagfeydd traffig a problemau parcio.

**4.2 Galw, Dyhead a Disgwyliad**
Yn anffodus mae’r galw, dyhead a disgwyliad am welliannau i seilwaith HTC yn bell iawn tu hwnt i’r cyllid sydd ar gael i’w cyflawni.

Mae hyn yn cynnwys a berthnasol iawn o safbwynt gwella mynediad i a hygyrchedd y rhwydwaith.





**4.3 Cynnal a Chadw**
Mae’r diffyg arian refeniw parhaus ar gyfer cynnal a chadw’r isadeiledd unwaith yn ei le yn gonsyrn mawr a chynyddol o safbwynt yr HTC, Lonydd Las a safleoedd sydd yn dod cyfrifoldebau y gwasanaeth. Mae hyn o ystyried fod sgil effaith cyfnodau mwy anwadal, eithriadol ac aml o dywydd garw yn achosi difrod sylweddol a chostus iawn i’w hadfer.
Mae hyn yn ymestyn a chynnwys lefelau cynnal a chadw o safbwynt torri gwair/tyfiant a sgubo a disgwyliadau ynglŷn â hyn. Mae hyn yn ei dro yn medru dylanwadu ar ddefnydd llwybrau.

**5.0 Cefndir / Cyd-destun**
**5.1 Teithio Llesol a Llwybrau**
Mae yna berthynas agos rhwng y rhwydwaith teithio llesol, sydd yn cynnwys lonydd las, a’r rhwydwaith HTC. Mae na achosion ble mae trywydd yn medru cael ei ddynodi fel un teithio llesol a hefyd a statws cyfreithiol HTC. Mae na achosion hefyd ble nad yw hyn yn wir a mae trywydd wedi ei ddynodi fel lon las ond ddim o reidrwydd, yn ei gyfanrwydd, fel HTC.

Cafodd adroddiad ei gyflwyno ar Teithio Llesol i’r Pwyllgor yma ar yr 22 Ionawr 2026. Mae linc i’r adroddiad wedi ei gynnwys yn **10. Gwybodaeth Cefndir**.

**5.2 Hyd a Dynodiad y Rhwydwaith**
Mae gan Wynedd rwydwaith o tua 2,418 milltir (3,892km) o hawliau tramwy cyhoeddus – mae hynny’n bellach na’r pellter o Gaernarfon i Cairo yn yr Aifft!

Gellir torri cyfanswm hyd y rhwydwaith i nifer o gategorïau gan ddibynnu ar natur yr hawl. Crynhoir hyn yn y tabl isod:

| Math | Defnydd cyfreithlon | Pellter | Symbol |
|---|---|---|---|
| **Llwybrau Troed** | • **Ar droed** | **2,115 milltir (3,404km)** |  |
| **Llwybrau March** | • **Ar droed**<br>• **Ar feic**<br>• **Ar geffyl** | **220 milltir (354km)** |  |
| **Cilffyrdd Cyfyngedig** | • **Ar droed**<br>• **Ar feic**<br>• **Ar geffyl**<br>• **A ceffyl a chert** | **52 milltir (84km)** |  |
| **Cilffyrdd Agored i Bob Traffig** | • **Ar droed**<br>• **Ar feic**<br>• **Ar geffyl**<br>• **A ceffyl a chert**<br>• **Ar feic modur**<br>• **Mewn cerbyd** | **31 milltir (50km)** |  |

Mae’r rhwydwaith yn cynnwys tua 180 milltir (290km) o Lwybr Arfordir Cymru sy’n cael ei weld yn cynnig peth o’r cerdded a golygfeydd gore a mwyaf amrywiol a godidog o’r 870 milltir o’r llwybr cenedlaethol.

## 5.3 Y Tîm Llwybrau

| | |
|---|---|
| Rheolwr Prosiectau, Llwybrau a Traffig | **Iwan ap Trefor** |
| Arweinydd Tîm Mynediad | **Gwyn Lloyd Evans** |
| Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (Arfon) | **Euryn Williams** |
| Archwiliwr Hawliau Tramwy (Arfon) | **Robert Jones** |
| Uwch Swyddog Hawliau Tramwy (Dwyfor) | **Dewi Owen** |
| Archwiliwr Hawliau Tramwy (Meirionnydd) | **Sam Hollingworth** |
| Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir | **Rhys Roberts** |
| Warden Mynediad i'r Arfordir | **Huw Williams** |
| Swyddog Hawliau Tramwy | **Catrin Davies** |

## 5.4 Prif bwrpas Tîm Llwybrau yw:

*Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad*

- **Gwella seilwaith**
  Creu rhwydwaith a thiroedd a thiroedd mwy diogel a chysylltiedig. Y Cyngor sydd berchen y tiroedd lle mae trywydd y Lonydd Glas, ac felly mae materion megis terfynau gwael, cyrsiau dwr sydd heb eu cynnal a choed anniogel yn golygu fod effaith ar dirfeddianwyr / cymdogion. Er esiampl os yw da byw yn cael rhwydd hynt i grwydro ar Lonydd Glas yn sgil terfynau diffygiol fe allai achosi damwain a niwed i ddefnyddwyr.

- **Sicrhau mynediad gwell i bawb**
  Sefydlu llwybrau a thiroedd a mynediad ehangach, llyfnach a hygyrch i bobl o bob gallu yn cynnwys er enghraifft y rhai a trafferthion symudedd, teuluoedd gyda phramiau a beicwyr o bob gallu.

- **Sicrhau diogelwch**
  Darparu arwyddion a chynnal arwynebau a therfynau llwybrau yn ddiogel er mwyn lleihau peryglon. Sicrhau nad yw da byw o diroedd cymdogion yn amharu ar ddefnydd hwylus a diogel y trywydd.

- **Hybu defnydd**
  Cynnal a chadw rhesymol yn denu pobl i ddefnyddio'r llwybrau a thiroedd, gan leihau tagfeydd ar y ffyrdd ac annog ffordd iach o deithio bydd yn ei dro yn sicrhau a chynnal poblogaeth iach yng Ngwynedd.

- **Cysylltu cymunedau**
  Mae cynnal llwybrau sy'n cysylltu cymunedau, ysgolion, gweithleoedd a chanolfannau siopa er mwyn gwneud teithio bob dydd yn haws a mwy cynaliadwy.

- **Llesiant, Iechyd Corfforol a Meddyliol**
  Mae darparu a chynnal cyfleoedd hygyrch a diogel i ymgysylltu natur a'r amgylchedd o fewn ei chymunedau yn cyfrannu at lesiant, iechyd corfforol a meddyliol.

Mae'r Tîm Llwybrau yn cyflawni hyn drwy:

- Warchod hawl a gallu y cyhoedd i deithio ar rwydwaith HTC y Sir mewn modd diogel a dirwystr.

- Cyd-weithio gyda rhanddeiliaid allweddol eraill, sy'n cynnwys tirfeddianwyr.

- Archwilio, cynnal a chadw'r isadeiledd a dogfennau cyfreithiol perthnasol er mwyn cydymffurfio â disgwyliadau deddfwriaethol y Cyngor.

**5.5 Cyswllt gyda Chynllun y Cyngor 2023-28**
Mae gwaith y Tîm yn cyfrannu'n ymarferol at wireddu a chyflawni nifer o uchelgeisiau ac amcanion strategol ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. O safbwynt Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 mae gwaith y tîm yn cyfrannu ac yn plethu gyda blaenoriaeth Gwynedd Werdd.

Mae'r Tîm Llwybrau yn gyfrifol ac yn ymwneud â phob agwedd o'r maes gwaith. Mae hyn yn ymestyn o'r strategol i'r gweithredol. Mae'r Tîm hefyd yn cyd-weithio yn agos gyda swyddogion eraill o fewn yr Adran Amgylchedd a'r Cyngor yn ehangach.

**5.6 Ffordd Gwynedd**
Weler isod sylwadau Gwyn, Arweinydd y Tîm:

> *"Rwy'n mwynhau'r amrywiaeth sydd yn gysylltiedig â'r swydd. Yn fy ngwaith dydd i ddydd mae angen cyfuno ystyriaeth i deddfwriaeth, gofynion statudol a hawliau'r cyhoedd drwyddo i gyflawni hyn ar lefel ffisegol.*
>
> *"Mae amgylchedd naturiol ac adeiladol Gwynedd yn byd enwog. Mae'n rhoi boddhad mawr i mi ein bod yn medru hwyluso a cyfoethogi profiadau a cyfleoedd bobl lleol a ymwelwyr i gael mynediad i rhain er mwyn mwynhau a gwneud y mwyaf' o'r hyn sydd gyda'r ardal i'w gynnig.*
>
> *"Gyda pryderon a ymwybyddiaeth o faterion iechyd corfforol a meddyliol yn cynyddu mae cynnig a cynnal cyfleodd i'r cyhoedd fwynhau gweithgareddau iachus sydd yn hygyrch ac atyniadol i drawstoriad mor eang o gymdeithas yn rhywbeth gwerthfawr iawn.*
>
> *"Mae cyd-weithio gyda ystod mor eang o rhanddeiliaid yn grêt. Rydym fel tîm wastad yn awyddus iawn i adeiladu a cynnal perthynas iach gyda defnyddwyr y llwybrau, tir feddianwyr a gwleidyddion ar bob lefel. Rydym yn rhagweithiol edrych am gyfleoedd i ennill cyllid o wahanol ffynonellau er mwyn gwella a cynnal y rhwydwaith llwybrau sydd yn cyfarch uchelgais ac amcanion amryw o strategaethau, polisïau a chynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol."*

**5.7 Y cyd-destun deddfwriaethol**
Llwybrau mae gan y cyhoedd hawl cyfreithiol i dramwyo drostynt yw Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC). Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un eu defnyddio i'r diben hwnnw, yn ddi-dâl ac ar unrhyw amser. Mae HTC yn cynnig ased hamdden a dull o gael mynediad at wasanaethau lleol mewn modd cynaliadwy a iachus.

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Priffyrdd sydd â dyletswydd statudol i warchod HTC. O ganlyniad, y Tîm Llwybrau sy'n cynnal a diweddaru'r Map Diffiniol a'r Datganiad, sef y cofnodion cyfreithiol o:

- Lwybrau Troed
- Llwybrau March
- Cilffyrdd Cyfyngedig
- Cilffyrdd Agored i Bob Traffig

Mae'r Tîm hefyd yn prosesu ceisiadau i ddiwygio'r Map Diffiniol, sef i wyro, creu neu newid statws hawliau tramwy. Mae deddfwriaeth yn rhoi dyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu yn y maes hawliau tramwy.

Nid yn unig felly mae dyletswydd statudol i warchod a chynnal cyflwr ffisegol hawliau tramwy ond hefyd i'w gwarchod yn gyfreithiol.

Mae ffocws rhaglen waith y Tîm wedi ei seilio ar hierarchaeth o lwybrau yn dibynnol ar eu statws, sy'n rhannol adlewyrchiad o'u defnydd.

Mae nifer o dyletswyddau gan y Cyngor a Thirfeddianwyr yn gysylltiedig â HTC gyda'r isod yn rhoi crynodeb:

**Cyfrifoldebau Cyngor Gwynedd**

- Sicrhau na fydd rhwystrau ar HTC
- Cynnal yr arwyneb mewn cyflwr addas ar gyfer y defnydd a fwriadwyd iddo
- Cynnal a chadw rhai pontydd
- Gosod arwyddion a chyferbwyntiau i ddangos llwybrau
- Rhoi caniatâd i osod camfeydd a giatiau
- Cadw'r Map Diffiniol yn gyfredol

**Cyfrifoldebau Tirfeddianwyr**

- Peidio gosod rhwystrau ar lwybrau nac atal pobl rhag eu defnyddio
- Cynnal y rhan fwyaf o gamfeydd a giatiau
- Cadw tyfiant ochrol a thyfiant sy'n tyfu dros y llwybr i lawr
- Ail osod llwybr ar draws caeau ar ôl troi neu blannu cnydau
- Peidio troi llwybrau ar ymylon caeau
- Peidio cadw anifeiliaid peryglus (gan gynnwys rhai teirw) ar lwybrau

**5.8 Opsiynau posib ar gyfer y dyfodol**

Cyd-weithio pellach gyda Cynghorau Cymuned gan ei arfogi a cefnogi i chwarae rôl ymarferol rhagweithiol yn cynnal, cadw a hyrwyddo defnydd o'r adnoddau pwysig yma o fewn ei cymunedau.

**5.9 Risgiau - beth yw'r risgiau a beth ellir ei wneud i'w lliniaru**

**5.9.1 Gofrestr Risg yr Adran**

O safbwynt HTC mae'r canlynol wedi ei gynnwys ar y Gofrestr Risg Adran yr Amgylchedd:

- Diffyg capasiti ac adnoddau ar gyfer cynnal a gwarchod hawliau tramwy / Lonydd Las / safleoedd a tiroedd.
- Diffyg capasiti i brosesu a phenderfynu gorchmynion Hawliau Tramwy.

**5.9.2 Cyffredinol**
Mae gwahanol agweddau o faterion yn ymwneud a HTC yn gallu fod yn sensitif a gyda phroffil uchel. Fel gyda rhan fwyaf o wasanaethau eraill y Cyngor mae adnodd ac argaeledd adnodd yn her barhaus a cynyddol.

Fel tîm gweithredol llinell flaen, y Swyddogion Llwybrau ydi'r cyswllt gweledol wyneb i wyneb gyda rhanddeiliaid. Maent yn gweithio mewn maes sy'n gallu bod yn heriol a chynhennus. Mae'r Tîm yn gweithredu yn unol â'r canllawiau mewn modd mor gyson, tryloyw, proffesiynol a theg a phosib. Maent yn derbyn pob math o sylwadau, ceisiadau ac adborth ac yn edrych i ymateb i rhain mewn modd rhesymol, rhesymegol a mor gadarnhaol a phosib er na fydd yn bosib cyfarch y ceisiadau, dymuniadau a dyheadau a gyflwynir.

Gan ystyried natur y maes gwaith, mae llawer o amser y tîm yn cael ei ymgymryd yn ymdrin â gohebiaeth, ymholiadau, cwynion a cheisiadau am wasanaeth o bob math, boed hynny yn ysgrifenedig neu ar lafar. Fel gyda nifer o wasanaethau eraill mae yna esiamplau ble mae nifer fach iawn o rhanddeiliaid yn cymryd i fyny amser ac adnodd sylweddol.

Mae heriau, a risgiau cysylltiedig, yn codi o safbwynt newid hinsawdd. Mae'r cynnydd yn achlysuron tywydd garw a stormydd yn cael effaith sylweddol ar y rhwydwaith llwybrau a Lonydd Las. Mae gwaith a chostau sylweddol yn gysylltiedig â'r gwaith adfer yn dilyn digwyddiadau tywydd garw. Does dim cyllideb penodol ar gyfer ymgymryd a unrhyw waith adfer o'r fath ar y rhwydwaith Lonydd Las. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o hyn gan fod angen rheoli, a mewn rhai achosion gostwng, disgwyliadau i adlewyrchu'r realiti yma.

**5.9.3 Risgiau Diogelwch**
- Darnau'n dirywio: perygl i ddefnyddwyr lithro, baglu neu gwympo.
- Arwynebau anwastad neu lithrig: yn cynyddu damweiniau, yn enwedig i feicwyr neu ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.
- Colled goleuo neu arwyddion: gall arwain at gamddealltwriaeth neu wrthdrawiadau.
- Tanseilio enw da'r Cyngor fel sefydliad sydd '*fit for purpose'* a 'cymydog da'.
- Hawliadau yswiriant yn deillio o niwed a brofwyd.

**5.9.4 Risgiau Amgylcheddol**
- Erydiad pridd a dŵr wyneb: pan nad oes cynnal a chadw, gall llwybrau ddod yn sianeli dŵr sy'n difrodi'r tir. Hyn yn amlwg iawn o safbwynt y Llwybr yr Arfordir.
- Difrod i gynefinoedd: gall defnyddwyr osgoi rhannau gwael drwy greu "llwybrau anffurfiol" sy'n tarfu ar fioamrywiaeth.

**5.9.5 Risgiau Cymdeithasol ac Economaidd**
- Colli defnydd: gall pobl ddechrau osgoi'r rhwydwaith Lonydd Glas gan ei weld yn beryglus neu annymunol.
- Mwy o gost yn y tymor hir: mae atgyweirio difrod difrifol yn llawer drytach na chynnal a chadw rheolaidd.
- Colli budd i'r gymuned: mae llwybrau a thiroedd yn hybu iechyd, lles a thwristiaeth; os ydynt yn dirywio, collir y manteision hyn.
- Potensial o gau'r adnoddau hyn yn barhaol os nad oes cyllideb gynnal resymol i'w cynnal.

**5.9.6 Risgiau Deddfwriaethol a Hawliadau**
- Mae cynnal mynediad i'r HTC yn angen deddfwriaethol. Mae methu a cyflawni hyn yn agor y drws i heriau cyfreithiol a hawliadau yn enwedig mewn sefyllfaoedd ble mae difrod neu niwed yn cael ei achosi.

### 5.9.7 Risgiau Enw Da

- Mae methiant i gynnal a chadw'r rhwydwaith HTC a'r risgiau cysylltiedig, fel nodwyd uchod, yn peri risg i enw da'r Cyngor a'i statws fel sefydliad sydd yn iawn i'w bwrpas yn darparu gwasanaeth yn unol a'r disgwyliadau deddfwriaethol i'w cymunedau.

### 5.10 Sefyllfa gyllidol y maes, amcangyfrif o gost gweithredu unrhyw newidiadau, ffynonellau cyllido etc.

Yn ogystal â gwneud y mwyaf o'r gyllideb cynnal a chadw craidd oddeutu **£188,450** mae'r Tîm yn hynod llwyddiannus yn uchafu gwerth drwy ennill symiau sylweddol er mwyn cynnal a gwella'r rhwydwaith HTC. Mae hyn gyfwerth a tua **£2.4 miliwn** dros y dair blwyddyn ddiwethaf.


**Cyllidebau craidd ar gyfer gwaith mynediad 2025 / 26**

| Cyllideb | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| **Cynnal Hawliau Tramwy** | £175,400 (R) | £188,450 (R) | £184,230 (R) | £188,450 (R)* |
| **Cynnal Lonydd Glas** | £25,000 (R) | £25,570 (R) | £27,340 (R) | £27,340(R) |
| **Safleoedd Gwasanaeth Amgylchedd** | £5,000 (R) | £5,380 (R) | £5,750 (R) | £5,750(R) |
| **Man waith Lonydd Glas** | £25,000 (C) | £25,000 (C) | £25,000 (C) | Dim |
| **Pontydd a strwythurau (cyllideb ddim gan y Gwasanaeth)** | £50,000 (C) | £50,000 (C) | £50,000 (C) | £50,000 (C) |

*Mae oddeutu £43,350 o'r cyfanswm yma yn cael ei roi i Gynghora Cymuned/Tref yn flynyddol i dorri llystyfiant ar arwyneb llwybrau

### 5.11 Data perfformiad

**Cynnal a Chadw a Gwelliannau i'r Rhwydwaith**




Mae'r gwaith yma yn cynnwys gwaith cynnal a chadw megis:

- Torri gordyfiant / gwair
- Symud coed sydd wedi ei disgyn
- Draeniau
- Bontydd, camfeydd, gatiau ac arwyddion

A gwaith adnewyddu a gosod isadeiledd newydd

- Bontydd, camfeydd, draeniau, giatiau ac arwyddion

Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy wario arian cyllideb craidd yn ogystal ag amryw grantiau sydd wedi eu hennill.

## Traffig, Prosiectau a Llwybrau

T&P3 - Nifer o ddefnyddwyr ar rwydwaith llwybrau'r sir


Enw Rheolwr : - Iwan ap Trefor

Pwrpas y Gwasanaeth:- Cynnal a rheoli rhwydweithiau mynediad

Sylwadau

Mae hwn yn fesurydd newydd sbon sy'n ymgais i fonitro niferoedd defnyddwyr ar rai o brif lwybrau ar rwydwaith y sir, gan ddefnyddio teclynnau monitro sydd yn eu lle ers sawl blwyddyn gan y Cyngor.
Mae'r data cychwynnol yn seiliedig ar niferoedd defnyddwyr sydd ar gael mewn 7 lleoliad ar Lwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd, gyda'r bwriad o ehangu'r lleoliadau wrth i ddata monitro ddod ar gael. (mae rhai teclynnau hefyd ar gael mewn lleoliadau eraill sydd angen eu hadnewyddu).
Mae'r lleoliadau presennol yn adrodd ar nifer defnyddwyr llwybr ym Morfa Mawr ger Aberdaron; Rhiw ym Mhen Llŷn; Cerrig y Defaid ym Llanbedrog; Dinas Dinlle; Faenol rhwng Y Felinheli a Bangor; Penrhyn ar gyrion Bangor i gyfeiriad Abergwyngregyn; Eglwys Llanfihangel yn ardal Ardudwy; a Pont Coronation yn Llanfair ger Harlech.
Mae'r data yn dangos patrwm o niferoedd gweddol gyson trwy gydol y cyfnod ers Ebrill 2025 mewn lleoliadau fel Penrhyn a'r Faenol, mae'r niferoedd uchaf mewn lleoliadau sy'n atyniadau fel Dinas Dinlle. Fel y byddem yn ei ddisgwyl, mae'r graff yn amlygu niferoedd uchaf yn ystod cyfnod brig yr haf, mae digwyddiadau megis rasys fel yr 'ultra' yn arwain at gynnydd clir mewn defnyddwyr yn ystod digwyddiadau o'r fath.


**Nifer o ddefnyddwyr ar rwydwaith llwybrau'r sir**




### 5.12 Beth sydd wedi ei gyflawni

Mae'r canlynol yn grynodeb o rhai o brif lwyddiannau diweddar y tîm Llwybrau sydd yn rhoi trosolwg o'r hyn sydd wedi ei gyflawni:

- Pontydd newydd ar Lon Las Ogwen



- Llwybr Arfordir newydd drwy Castell Penrhyn
- Gwaith adfer i lwybr Cob Bach, Pwllheli
- Amnewid camfeydd am giatiau yn ardal Talsarnau/Harlech
- Grisiau newydd yng Nghoed Cors y Gedol, Dyffryn Ardudwy



- Pont a giatiau newydd ar lwybr dros Afon Carrog, Bethesda Bach er mwyn cysylltu cymunedau Llanwnda a Llandwrog



- Gwelliannau llwybrau yn nghymuned Mynytho



- Pontydd newydd ger Porth Penllech, Llangwnnadl



- Yn ogystal â phrosiectau sylweddol penodol fel yr uchod mae gwaith parhaus yn cael ei ymgymryd yn cynnal a chadw a gwella'r isadeiledd ar draws y rhwydwaith llwybrau yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynnwys newid camfeydd gyda gatiau sydd yn gwneud y llwybrau yn fwy hygyrch at atyniadol.

**5.13 Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**

Cafodd y Polisi HTC ei gyflwyno a gymeradwyo yn 2007. Gyda hyn mae gwaith wedi mynd rhagddo i adolygu a diweddaru'r Polisi. Mae hyn yn mynd i adlewyrchu a cael ei ddylanwadu gan brofiadau yn gweithredu'r polisi cyfredol ac hefyd i disgwyliadau a be sydd yn ymarferol a rhesymol bosib ei gyflawni gyda'r adnoddau presennol.

Mae'r canlynol yn esiamplau o'r gwaith sydd yn mynd rhagddo fel blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

- Amnewid camfeydd am giatiau ar gylchdeithiau llwybrau cymunedol Llanfrothen
- Darparu pont newydd yn Pont Sarnau, Bethesda






- Amnewid camfeydd am giatiau yn ardal Llanfachreth / Rhydymain



- Adfer a thorri coed ar lwybrau yn Parc y Borth, Borth y Gest yn dilyn difrod stormydd diweddar
- Gwella arwyneb llwybr yn cysylltu Penrhosgarnedd a Ffordd Caernarfon ym Mangor
- Gweithio ar y cyd gyda Parc Cenedlaethol Eryri i wella llwybrau yn Nghymuned Abergwyngregyn
- Amnewid camfeydd am giatiau yn nghymuned Llandderfel
- Adolygu'r Polisïau Tramwy Cyhoeddus er mwyn sicrhau fod rhain yn adlewyrchiad teg a realistig o be gellir ei gyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- Gwirio materion yn neud da'r ROIP.
- Adolygu'r trefniadau ar gyfer hwyluso cefnogaeth gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddolwyr yn cynnig adnodd gwerthfawr iawn yn cefnogi gwaith y Tîm a mae angen sicrhau fod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd priodol a derbyniol o wahanol ogwydd sydd yn cynnwys materion iechyd a diogelwch a yswiriant.

**6.0 Ymgynghori**

Mae ymgynghori a ymgysylltu gyda rhanddeiliaid yn agwedd parhaus o waith y Tîm. Mae hyn yn cynnwys:

- Trigolion
- Cynghorau Cymuned
- Fforymau Mynediad
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Cymdeithas y Cerddwyr (Ramblers)
- Ymddiriedolaeth Cerdded, Seiclo ac Olwyno (Sustrans)
- Cymdeithas Ceffylau Prydeinig
- Eraill sydd yn cynrychioli buddion defnyddwyr

Mae'r mewnbwn ac adborth yn deillio o hyn wedi ei adlewyrchu a gynnwys o fewn yr adroddiad yma a llunio'r ymagwedd tuag at a flaenoriaethau'r Tîm.

Fe fydd prosesau ymgynghori yn elfen greiddiol o adolygu'r Polisi HTC a hefyd wrth fynd ati i ddiweddaru'r Cynllun gwella hawliau tramwy (ROWIP).

**7.0 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**7.1 A ydych wedi *cynnwys* trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?**

Mae trigolion, Aelodau Lleol a Chynghorau Cymuned yn ymgysylltu â'r Cyngor ar sail barhaus ar faterion yn ymwneud â'r maes yma.

**7.2 A ydych wedi ystyried *cydweithio*?**
Mae'r Tîm mewn cyswllt cyson gyda rhanddeiliaid allweddol eraill yn y maes sy'n cynnwys swyddogion o Awdurdodau Lleol eraill, Parc Cenedlaethol Eryri a Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau fel Cymdeithas y Cerddwyr (Ramblers).

Mae Fforymau Mynediad yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â'r HTC.

Mae'r Tîm yn cydweithio yn agos hefyd gyda gwasanaethau a adrannau arall o'r Cyngor sydd, ymysg eraill, yn cynnwys Priffyrdd a YGC, Bioamrywiaeth, Prosiectau a Teithio Llesol a Economi a Chymuned.

**7.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**
Rydym yn edrych i flaenoriaethu gwaith ac optimeiddio defnydd adnoddau yn seiliedig ar y system categoreiddio HTC.

Rydym yn rhagweithiol edrych am ffyrdd o sicrhau arian refeniw i gynnal a chadw yn ogystal ag arian cyfalaf i adeiladu a gosod seilwaith newydd ar y rhwydwaith HTC.

**7.4 Sut ydych wedi ystyried yr *hirdymor* a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**
Mae darparu a cynnal isadeiledd sydd yn galluogi a hwyluso dulliau amgen o deithio yn hytrach na'r car yn medru:
- Lliniaru effaith newid hinsawdd
- Gwella iechyd a lles y boblogaeth
- Sefydlu tueddiadau ac ymarferiad iach gydol bywyd
- Lliniaru problemau yn gysylltiedig â thagfeydd traffig a pharcio

**7.5 Er mwyn sicrhau *integreiddio*, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**
Mae ein gweithgaredd eisoes wedi ei integreiddio gyda a cefnogi gwaith cyrff cyhoeddus eraill sydd yn cynnwys Cynghorau Cymuned, Llywodraeth Cymru a Parc Cenedlaethol Eryri.

Rydym hefyd yn cyd-weithio yn agos a mae'n gwaith wedi integreiddio gyda gwasanaethau arall o fewn y Cyngor sydd yn cynnwys Priffyrdd a YGC, Bioamrywiaeth a Economi a Chymunedau.

**8.0 Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol**

Fe fydd hyn yn rhan o'r broses ymgynghori ac asesiad yn gysylltiedig â adolygu'r Polisiau HTC a ROWIP.

Mae HTC o safon, hygyrch a atyniadol yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb, y Gymraeg a chyfiawnder economaidd-gymdeithasol drwy wella mynediad at natur, cefnogi diwylliant lleol a darparu gweithgareddau rhad i bawb. Fodd bynnag, mae angen cynllunio a rheoli'r rhwydwaith yn ofalus er mwyn sicrhau hygyrchedd, diogelu'r Gymraeg a lleihau anghydraddoldebau drwy buddsoddi ynddo.

**9.0 Camau Nesaf**

Gellir crynhoi ein camau nesaf a'r hyn sydd angen ei gyflawni fel y ganlyn:

- Bwrw ymlaen gyda rhaglen waith cynnal a chadw blynyddol.
- Cyflawni'r cynlluniau mae grantiau wedi ei ennill ar ei cyfer.
- Ystyried cyfleoedd i gyd-weithio ymhellach gydag eraill.
- Edrych i gyflwyno system ffurfiol o arolygu lonydd las a tiroedd a tybir yng nghyfrifoldeb y Gwasanaeth.
- Cwblhau'r gwaith o adolygu'r Polisi a cyflwyno hwnnw i'r broses wleidyddol am ystyriaeth a chymeradwyaeth.
- Codi ymwybyddiaeth a edrych am ffyrdd o liniaru risgiau yn gysylltiedig a'r rhwydwaith (cynnal a chadw cyffredinol, rheolaeth coed, effaith tywydd garw a fandaliaeth).
- Canfod datrysiadau i senarios hanesyddol gan gynnwys Cob Porthmadog a Bont Abermaw.
- Edrych ar ffyrdd pellach o annog defnydd o'r rhwydwaith HTC.

**10.0 Gwybodaeth Cefndir**

Mae'r dolenni canlynol yn rhoi mynediad i wybodaeth bellach a all fod o ddiddordeb i Aelodau:

Adroddiad Pwyllgor Craffu Cymunedau – Teithio Llesol 22 Ionawr 2026
Teithiau Llesol.pdf
Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Layout 1
Fforwm Mynediad
Fforwm Mynediad Lleol
Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Lonydd Las
Lonydd Glas
Llwybr Arfordir
Llwybr Arfordir
Nabod Ni Llwybrau
Nabod Ni - Llwybrau
Polisïau Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Polisiau-Hawliau-Tramwy.pdf